Department for Education

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Dyfodol disgleiriach i Gyfiawnder Teuluol

## Crynodeb o'r hyn sydd wedi digwydd ers yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair ar y Cyd gan y Gweinidogion | 2 |
| **Rhan I** | 4 |
| Cyfiawnder Teuluol – tirwedd newydd | 4 |
| Tueddiadau data Cyfiawnder Teuluol ers yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol | 7 |
| **Rhan 2** | 9 |
| Cynnydd ag argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol System ag anghenion plant yn ganolog iddi | 9 |
| Newidiadau i Gyfraith Gyhoeddus | 10 |
| Newidiadau i Gyfraith Breifat | 12 |
| Datblygu arweinyddiaeth y system cyfiawnder teuluol | 15 |
| Y farnwriaeth a'r gweithlu ehangach | 16 |
| Atodiad Argymhellion | 18 |

# Rhagair ar y Cyd gan y Gweinidogion

Pan gyflwynwyd adroddiad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol ym mis Tachwedd 2011, roedd yn anodd i unrhyw un oedd â chyfrifoldeb am y system cyfiawnder teuluol ei ddarllen heb deimlo'n annifyr iawn.

Canfu'r Adolygiad system a oedd yn gwneud cam â'r bobl agored i niwed y dylai fod yn eu gwasanaethu, system heb gydlyniant, heb ymddiriedaeth rhwng asiantaethau a heb arweiniad. Roedd hyn yn achosi oedi aruthrol, diangen, ac roedd achosion gofal yn y llysoedd sirol yn cymryd dros 60 wythnos ar gyfartaledd – 'oes ym mywyd plentyn' yng ngeiriau David Norgrove.

Yn ymateb y Llywodraeth ym mis Chwefror 2012 cytunasom â'r rhan fwyaf o'r hyn a ganfuwyd gan yr Adolygiad ac, fel y rhan fwyaf o'r asiantaethau sy'n gweithio yn y system, derbyniasom fod angen cymryd camau radical. Ers yr ymateb hwnnw, mae'r system cyfiawnder teuluol wedi gweld newidiadau mawr. Mae diwygio cyfiawnder teuluol ac amddiffyn plant wedi bod yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth, ac mae'n dal yn flaenoriaeth iddi, ac rydym yn falch o gyflwyno'r cyhoeddiad hwn sy'n dangos y cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud.

## Adeiladu dyfodol disgleiriach

Yr enghraifft amlycaf o ddiwygio radical yw cyflwyno un Llys Teulu. Roedd yr hen system, lle'r oedd unrhyw un a oedd yn gwneud cais i'r llys yn gorfod penderfynu i ba un o'r tair haen o lysoedd y dylai anfon cais, a pha lys oedd â'r awdurdodaeth ddaearyddol i ymdrin â'i achos, yn nodweddiadol o'r prosesau aneffeithlon a oedd yn amharu ar gyfiawnder teuluol. Roedd y syniad o un llys teulu wedi bod o gwmpas ers blynyddoedd ond ychydig iawn oedd wedi cael ei wneud i geisio gwireddu'r syniad. Rydym yn falch ein bod wedi cymryd y cam hwn a fydd yn gwella profiad pawb sy'n gorfod mynd i'r llys.

Er mwyn helpu i leihau oedi, cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 derfyn amser o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwyliaeth mewn cyfraith gyhoeddus. Efallai fod hwn yn ymddangos yn darged uchelgeisiol ar y pryd, ond mae'r lleihad aruthrol rydym wedi'i weld yn barod yn hyd yr achosion yn profi mai bod yn uchelgeisiol oedd y peth iawn i'w wneud.

Mae gwasanaethau plant yn amlwg yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod y plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael eu hamddiffyn yn briodol ac yn cael gofal. Rydym wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a'r Coleg Gwaith Cymdeithasol er mwyn gwella'r canllawiau sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol a rhannu'r arferion gorau. Mae rôl y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) wedi bod yn bwysig iawn er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ac rydym yn ei longyfarch am gael y radd 'eithriadol' gan Ofsted ym mis Ebrill eleni am arweinyddiaeth a llywodraethu'r sefydliad cenedlaethol.

Rydym hefyd wedi nodi'n glir ein bod am i bobl ddatrys eu hanghydfodau y tu allan i'r llys os yw hynny'n bosibl. Mae cymorth cyfreithiol ar gael o hyd ar gyfer cyfryngu ac erbyn hyn mae gofyniad statudol ar bob cwpwl sy'n gwahanu i ystyried cyfryngu cyn y gallant fynd i'r llys i drafod plant a materion ariannol. Rydym yn cydnabod y bydd angen i rai achosion fynd i'r llys, ond rydym yn credu'n gryf ei bod yn well i bawb os gellir datrys anghydfodau heb y straen o fynd i'r llys.

Rydym yn sylweddoli bod y diwygiadau hyn wedi digwydd ar adeg pan gyflwynwyd newidiadau mawr i gymorth cyfreithiol mewn cyfraith breifat. Mae nifer y bobl sy'n cynrychioli eu hunain yn y llys wedi cynyddu ers cyflwyno deddfwriaeth a oedd yn diwygio'r system cymorth cyfreithiol, ac rydym yn deall yr anawsterau y mae hyn wedi'i achosi. Mae pobl sy'n cynrychioli eu hunain wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder teuluol erioed a byddwn yn dal i fonitro nifer yr achosion hyn yn y llysoedd, a'r effaith y mae hyn yn ei gael. Rydym yn gweithio er mwyn sicrhau bod y rhai hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol mwyach, ac nad oes ganddynt unrhyw ddewis ond mynd i'r llys, yn cael y gefnogaeth a'r cyngor y mae arnynt ei angen i gynrychioli eu hunain.

Yn olaf, hoffem ddiolch i bawb yn y system cyfiawnder teuluol sydd wedi helpu i sicrhau bod y newid yn digwydd. Ni fyddai unrhyw ddiwygiadau'n bosibl oni bai fod pawb, yn weithwyr cymdeithasol, barnwyr, cyfreithwyr a chyfryngwyr, yn cydweithio i wneud y system cyfiawnder teuluol yn well i'r holl blant a theuluoedd sy'n dod i gysylltiad â hi.

Hoffem hefyd ddiolch i David Norgrove sydd wedi parhau â'r gwaith rhagorol a wnaeth wrth arwain yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Mae wedi cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2012. Diolch hefyd i Lywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, y bu ei gyfraniad i'r gwaith o yrru'r diwygiadau yn eu blaen yn hollbwysig.

Gyda'n gilydd, rydym wedi gwneud llawer iawn i ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol, ond gwyddom yn iawn nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau. Gallwn wneud llawer mwy eto i wneud i'r system weithio'n well i'r rhai sy'n defnyddio ein llysoedd a gwasanaethau eraill y tu allan i'r llys. Rydym wedi ymrwymo i ddal i weithio gyda chi er mwyn gwneud cyfiawnder teuluol yn well i bawb.

**Simon Hughes**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder a Hawliau Sifil

**Edward Timpson**
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Blant a Theuluoedd

# **Rhan I:** Cyfiawnder Teuluol – tirwedd newydd

1 Yn 2011 canfu'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol annibynnol, dan gadeiryddiaeth David Norgrove, nad oedd y system cyfiawnder teuluol yn system o gwbl a bod dyfodol y plant agored i niwed a oedd i fod i gael eu hamddiffyn yn cael ei danseilio. Yn ei adroddiad terfynol, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, gwnaeth yr Adolygiad 134 o argymhellion i wella'r system. Dosbarthwyd yr argymhellion i bum categori cyffredinol: system ag anghenion plant yn ganolog iddi, newidiadau i gyfraith gyhoeddus, newidiadau i gyfraith breifat, datblygu arweinyddiaeth y system cyfiawnder teuluol, a'r farnwriaeth a'r gweithlu ehangach.

2 Yn yr ymateb a gyhoeddwyd yn Chwefror 2012, a'r cynllun gweithredu manwl a gyhoeddwyd ym Mehefin 2012, derbyniodd y Llywodraeth y rhan fwyaf o'r 134 o argymhellion ac ymrwymodd i'w gweithredu. Amlinellir cynnydd y Llywodraeth â'r argymhellion hyn yn Atodiad A.

3 Ar 22 Ebrill 2014, daeth y diwygiadau cyfiawnder teuluol mwyaf ers cenhedlaeth i rym, gan sicrhau bod plant yn ganolog i'r system a gweithredu nifer o'r argymhellion a awgrymwyd gan yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Daeth yr un Llys Teulu'n realiti a rhoddwyd darpariaethau o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 ar waith. Y canlyniad yw tirwedd cyfiawnder teuluol gwahanol iawn i'r un hynod ddiffygiol a ganfu'r Adolygiad. Mae'r adran hon yn amlinellu prif nodweddion y dirwedd newydd hon..

### Yr un Llys Teulu

4 O ganlyniad i greu'r Llys Teulu newydd sefydlwyd llys unedig sydd bellach yn ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion teulu. Nid yw Llysoedd Achosion Teulu yn bodoli mwyach ac nid oes gan yr un Llys Sirol newydd bŵer i wrando materion teuluol. Ni fydd teuluoedd bellach yn gorfod penderfynu i ba lys y dylent anfon cais. Yn lle hynny, mae un pwynt mynediad ar gyfer cais ym mhob ardal leol a dyrennir pob cais i farnwr ar y lefel fwyaf priodol ac i leoliad addas.

5 Mae'r un Llys Teulu'n darparu prosesau wedi'u symleiddio i deuluoedd sy'n defnyddio'r llys ac i staff y llys. Gall y llys eistedd yn unrhyw le yng Nghymru a Lloegr, a chynigir llawer mwy o hyblygrwydd na'r hen system. Gan fod barnwyr ar bob lefel yn gallu eistedd yn y Llys Teulu, o ynadon lleyg i Farnwyr yr Uchel Lys ac uwch, nid oes angen yr oedi hir sy'n cael ei achosi wrth i achosion gael eu trosglwyddo o'r naill lys i'r llall. Mae'r prosesau sydd wedi'u symleiddio'n helpu i greu system sy'n rhoi lle canolog i anghenion plant.

### Cyfraith gyhoeddus

6 Pan gyflwynwyd adroddiad yr Adolygiad yn 2011, roedd oedi mewn achosion gofal a goruchwyliaeth yn golygu ei bod yn cymryd 55 wythnos1 ar gyfartaledd i gwblhau achosion. Mae achosion gofal yn cynnwys rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a chydnabuwyd yn gyffredinol bod yr oedi'n achosi niwed a dryswch i bawb. Ers hynny, mae'r Llywodraeth a'r system cyfiawnder teuluol ehangach wedi cyflwyno diwygiadau sylweddol a phellgyrhaeddol sydd wedi llwyddo i leihau'r oedi hwn, ac roedd hyd achosion yn ystod Ionawr-Mawrth 2014 yn 32 wythnos.

7 Mae'r diwygiadau a wnaethpwyd yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 wedi cynnwys amseroldeb yn y gyfraith, a hynny drwy gyflwyno'n ffurfiol derfyn amser o 26 wythnos ar gyfer pob achos gofal a goruchwyliaeth. Disgwyliwn y bydd hyn yn lleihau'r oedi ymhellach ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r plant. Gall y llys ymestyn y cyfnod o 26 wythnos am hyd at wyth wythnos ar y tro os oes angen er mwyn datrys yr achosion yn iawn.

### Cyfryngu

8 Fel rhan o ymgyrch y Llywodraeth i annog pobl i ddatrys anghydfodau teuluol y tu allan i'r llys, lle bo hynny'n briodol, mae bellach yn ofynnol dan y gyfraith i bobl sy'n dymuno mynd ag anghydfod ynglŷn â phlant neu faterion ariannol i'r llys teulu neu'r Uchel Lys fynd yn gyntaf i Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM). Mae'r MIAM yn gyfle i bobl ddarganfod mwy am gyfryngu teuluol ac a yw'n iawn iddynt hwy. Mae eithriadau, er enghraifft lle mae achos yn cynnwys elfen o drais yn y cartref neu gam-drin plant. I gefnogi hyn, mae'r Llywodraeth wedi cadw cyfryngu teuluol a chymorth cyfreithiol ar gyfer cyfryngu yn rhan o gwmpas cymorth cyfreithiol. Os bydd un ochr yn cael ei hariannu, bydd cost y MIAM cychwynnol yn cael ei dalu ar gyfer y ddwy ochr.



1 Cyfrifwyd y cyfartaledd hwn o'r holl achosion yn y system Cyfiawnder Teuluol.

## Cyfraith Breifat

**9** Mae Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn darparu Gorchymyn Trefniadau Plentyn newydd sy'n disodli'r gorchmynion preswylio a chyswllt ar wahân a oedd yn bodoli cyn hynny. Mae'r Gorchymyn newydd yn ceisio newid y syniad bod un rhiant yn bwysicach na'r llall drwy dermau mympwyol megis 'rhiant preswyl'. Mae'r Gorchymyn yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn canolbwyntio ar y plentyn, yn hytrach na'r rhieni. Mae gan y gorchymyn hwn yr un darpariaethau gorfodi â'r gorchymyn cyswllt blaenorol.

**10** Bydd darpariaeth ar wahân ar gynnwys rhieni. Bydd y ddarpariaeth hon, a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn yr hydref, yn anfon neges gliriach i rieni am y dull a ddefnyddir gan y llysoedd i benderfynu ynglŷn â threfniadau ar gyfer plant y mae anghydfod yn eu cylch. Y nod yw annog rhieni i ganolbwyntio mwy ar y plant a nodi'n glir mai'r man cychwyn yw cynnwys y ddau riant ym mywyd plentyn.

## Arbenigwyr

**11** Roedd yr Adolygiad yn argymell y dylid cryfhau'r meini prawf ar gyfer defnyddio tystiolaeth arbenigwyr mewn achosion teulu er mwyn osgoi'r oedi hir a all ddigwydd yn sgîl comisiynu ac adroddiadau diangen neu ddianghenraid. Mae darpariaethau yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 a newidiadau i Reolau Trefniadaeth Teulu 2010 yn golygu mai'r unig adeg y gellir gorchymyn tystiolaeth arbenigol yn awr yw pan fo'r barnwr yn credu bod angen gwneud hynny er mwyn datrys yr achos yn deg, a phan na ellir cael y wybodaeth a geisir gan un o'r partïon.

## Diwygio cymorth cyfreithiol mewn Cyfraith Breifat

**12** Ym mis Ebrill 2013 cafodd cymorth cyfreithiol ar gyfer cyngor a chynrychiolaeth ei ddileu ar gyfer y rhan fwyaf o faterion cyfraith teulu breifat. Mae cymorth cyfreithiol ar gael o hyd os oes tystiolaeth o drais domestig neu os oes pryder ynglŷn ag amddiffyn plant, ac mae wedi cael ei gadw ar gyfer cyfryngu teuluol.

**13** Ar 22 Ebrill 2014 gwelwyd newid yn y ffi cymorth cyfreithiol a delir i gyfreithwyr mewn achosion cyfraith teulu gyhoeddus. Gostyngwyd y ffi 10% fel bod ffioedd penodedig sy'n daladwy am achosion gofal yn well adlewyrchiad o'r gwaith mewn achosion o'r fath. Mae'r gwaith wedi lleihau gan nad yw achosion cyfraith gyhoeddus yn para cyhyd.

**14** Cyn hynny, ym mis Rhagfyr 2013 cyflwynodd y Llywodraeth ostyngiad o 20% yn y cyfraddau a delir i'r rhan fwyaf o arbenigwyr mewn achosion sifil, teuluol a throseddol. Oherwydd yr her ariannol a wynebai, roedd angen i'r Llywodraeth wneud yn siŵr bod y ffioedd hyn yn cynnig gwerth am arian. Mae'r gostyngiadau hyn yn sicrhau bod y ffioedd yn cyfateb i'r ffioedd am wasanaethau eraill.

**15** Arferai'r tâl am wasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol fod yn seiliedig ar haen y llys lle cynhelid yr achos. O ganlyniad i sefydlu'r un Llys Teulu bu'n rhaid addasu'r fframwaith talu cymorth cyfreithiol teuluol. Bwriedir i'r newidiadau hyn fod yn niwtral o ran cost ac adlewyrchu'r un lefelau tâl a strwythur ag o'r blaen.


**16** Mae'r Llywodraeth yn diwygio'r Cynllun Eiriolaeth Teulu presennol ar gyfer cymorth cyfreithiol o ganlyniad i'r newidiadau i Gyfarwyddyd Ymarfer 27A sy'n lleihau maint bwndeli llys. Bydd cyflwyno uchafswm o 350 tudalen ar gyfer maint bwndeli llys, a fydd yn berthnasol i'r rhan fwyaf o achosion, i bob pwrpas yn atal achosion rhag cael y taliadau ychwanegol ar gyfer bwndeli llys y bu eiriolwyr yn eu cael am lwyth gwaith ac achosion cymhleth. Ni fwriadwyd i'r newidiadau gael unrhyw effaith ar gleientiaid cymorth cyfreithiol, swm y tâl a delir na'r gronfa cymorth cyfreithiol, a daethant i rym ar 31 Gorffennaf 2014.

## Ffioedd yn y Llys Teulu

**17** Newidiwyd ffioedd yn y Llys Teulu ar 22 Ebrill 2014 yn unol â'r diwygiadau ffioedd ehangach yn y system cyfiawnder sifil a theuluol. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o 3 Rhagfyr 2013 hyd 22 Ionawr 2014 er mwyn amlinellu cynigion i ddiwygio ffioedd fel bod defnyddiwr y llys yn talu am y gwasanaeth a ddarperir gan y llysoedd, drwy adennill costau a chodi ffioedd uwch. Daeth rhan gyntaf yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer adennill costau i rym ar 22 Ebrill.

# Tueddiadau data Cyfiawnder Teuluol ers yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol


**Cyfraith gyhoeddus: O'r cais i'r gorchymyn llawn cyntaf**
Hyd cyfartalog mewn wythnosau: Achosion Gofal a Goruchwyliaeth, Cymru a Lloegr, Ionawr 2011 – Mawrth 2014




| | Chwarter | Cyfartaledd Wythnosau |
|---|---|---|
| 2011 | Ion-Maw | 55.6 |
| | Ebr-Meh | 54.6 |
| | Gor-Medi | 54.4 |
| | Hyd-Rhag | 54.7 |
| 2012 | Ion-Maw | 54.0 |
| | Ebr-Meh | 51.5 |
| | Gor-Medi | 47.6 |
| | Hyd-Rhag | 45.3 |
| 2013 | Ion-Maw | 42.3 |
| | Ebr-Meh | 41.0 |
| | Gor-Medi | 35.9 |
| | Hyd-Rhag | 33.4 |
| 2014 | Ion-Maw | 32.0 |

Mae hyd cyfartalog achosion gofal a goruchwyliaeth wedi gostwng o 55.6 wythnos i 32 wythnos yn ystod y cyfnod hwn. Gostyngiad o 42.4%


**Cyfraith gyhoeddus:** Cyfran yr achosion a gwblhawyd cyn pen 26 wythnos
Cyfran yr achosion Gofal a Goruchwyliaeth a gwblhawyd cyn pen 26 wythnos, Cymru a Lloegr, Ionawr 2011 – Mawrth 2014




| | Chwarter | % a gwblhawyd cyn pen 26 wythnos |
|---|---|---|
| 2011 | Ion-Maw | 11 |
| | Ebr-Meh | 13 |
| | Gor-Medi | 13 |
| | Hyd-Rhag | 13 |
| 2012 | Ion-Maw | 14 |
| | Ebr-Meh | 13 |
| | Gor-Medi | 19 |
| | Hyd-Rhag | 25 |
| 2013 | Ion-Maw | 28 |
| | Ebr-Meh | 29 |
| | Gor-Medi | 43 |
| | Hyd-Rhag | 48 |
| 2014 | Ion-Maw | 50 |


Cyflwynwyd y terfyn amser statudol o 26 wythnos ym mis Ebrill 2014.

**Cyfraith breifat:** O'r cais i'r gorchymyn llawn cyntaf
Hyd cyfartalog achosion adran 8 hyd at y gorchymyn llawn cyntaf. Cymru a Lloegr, Ionawr 2011 – Mawrth 2014




Mae hyd cyfartalog achosion cyfraith breifat adran 8 wedi aros o fewn yr ystod 15–20 wythnos.

**Cyfryngu**
Nifer y cyplau yn mynd i gyfarfodydd MIAM a ariennir ag arian cyhoeddus, dechrau cyfryngu a chyfarfodydd cyfryngu a ariennir ag arian cyhoeddus sy'n dod i gytundeb llawn, Ionawr 2011 – Mawrth 2014




Credir bod y gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu cyfeirio at gyfryngu teuluol ar ôl i'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr ddod i rym ym mis Ebrill 2013 yn rhannol oherwydd bod llai o bobl yn mynd i weld cyfreithwyr a fyddai fel arfer wedi dweud wrth bobl am fynd i Gyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu (MIAM). Cyn Ebrill 2013 roedd mynd i gyfarfod MIAM yn un o'r rhagofynion ar gyfer cleientiaid a oedd yn gymwys i gael arian cyhoeddus ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol. Mae tynnu'r rhan fwyaf o waith cyfraith breifat o gwmpas cymorth cyfreithiol yn golygu nad yw'r llwybr cyfeirio awtomatig hwn at gyfarfodydd MIAM yn bodoli mwyach.

# Rhan 2:
# Cynnydd ag argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol

*System ag anghenion plant yn ganolog iddi*

'Drwy ein diwygiadau arfaethedig byddwn yn cyflwyno camau ymarferol i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed cyn ac yn ystod proses y llys.'[2]

**18** Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall canlyniadau llysoedd teulu effeithio ar fywydau plant. Elfen ganolog o ddiwygiadau eang y Llywodraeth ym maes cyfiawnder teuluol yw'r ymrwymiad i wella profiad y plant.

**19** Yn yr ymateb i'r Adolygiad cytunodd y Llywodraeth y byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, ar ôl iddo gael ei sefydlu, yn arwain y gwaith o weithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion hyn.

### Beth rydym wedi'i wneud

**20** Gwella gwybodaeth am y system cyfiawnder teuluol a phroses y llys i bobl ifanc oedd argymhelliad cyntaf yr Adolygiad. Er mwyn cefnogi'r nod hon, ehangwyd rôl y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol, a grëwyd yn wreiddiol gan Cafcass yn 2006, i gynnwys y system cyfiawnder teuluol gyfan yn Lloegr. Mae'r Bwrdd yn cynnwys tua 43 o blant a phobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder teuluol neu sydd â diddordeb mawr ynddi. Maent yn helpu i sicrhau bod gwaith y Bwrdd yn canolbwyntio ar blant ac yn cynnwys plant.

**21** Er mwyn helpu i wella gwybodaeth i bobl ifanc sy'n rhan o'r system, mae'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wedi cynhyrchu rhestr o dermau perthnasol ar gyfer plant ac mae wedi ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu gwybodaeth addas i blant y gall Cynghorwyr Llysoedd Teulu Cafcass ei rhoi i'r plentyn ar ddechrau achos.

**22** Mae'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wrthi'n datblygu Siarter Cenedlaethol ar gyfer system cyfiawnder teuluol sy'n cynnwys plant. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod nifer o sefydliadau cyfiawnder teuluol ac mae'n ceisio cytuno ar ymrwymiadau penodol gan bob un. Yn ddiweddar cwblhaodd ei rownd gyntaf o archwiliadau swyddfeydd Cafcass ac mae wedi dechrau archwilio canolfannau cyswllt sydd wedi cael eu hachredu gan Gymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt â Phlant. Mae rhaglen beilot ar gyfer adolygu Llysoedd yn cael ei chynnal yng Nghaerefrog hefyd.

**23** Cynhelir archwiliadau ac adolygiadau llysoedd gan aelodau hyfforddedig o'r Bwrdd sy'n edrych ar y cyfleusterau a gynigir i blant a phobl ifanc, gan wneud yn siŵr eu bod yn briodol i'w hoedran, yn addas ac yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys edrych sut mae adborth yn cael ei gasglu. Mae'r adolygiadau llysoedd hefyd yn cynnwys trafodaeth â'r barnwyr sydd ar gael yn y llys. Yn y naill achos a'r llall, mae'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol yn llunio adroddiad a gyflwynir i'r parti arall sy'n rhoi sgôr i'r cyfleusterau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

2 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, t.10 – www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177097/CM-8273.pdf

# Newidiadau i Gyfraith Gyhoeddus

‘Bydd y newidiadau y byddwn yn eu gwneud mewn cyfraith gyhoeddus yn arwain at system cyfiawnder teuluol lle bydd oedi’n annerbyniol a lle bydd llawer mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y plentyn.’[3]

**24** Oedi mewn cyfraith gyhoeddus oedd un o brif bryderon yr Adolygiad. Mae’r pryder bod yr oedi hwn yn cael effaith hirdymor ar ddatblygiad plant sy’n agored i niwed wedi ysgogi rhan helaeth o waith y Llywodraeth ers hynny.

**25** Roedd yr Adolygiad yn nodi mai’r ffordd orau o ofalu am rai plant oedd eu hamddiffyn drwy ymyriad gwladol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi’i ddefnyddio i esgusodi’r oedi sydd wedi bod mor amlwg yn y system. Mae nifer o ymdrechion wedi’u gwneud dros y blynyddoedd i leihau’r oedi. Gan fod y broblem hon yn ymddangos yn un anodd iawn i’w rheoli roedd angen dull gweithredu mwy radical.

### Beth rydym wedi’i wneud

**26** Mae’r Llywodraeth wedi ceisio mynd i’r afael â systemau a phrosesau aneffeithlon sydd wedi cyfrannu at yr oedi, ac at y diwylliant a oedd yn derbyn bod oedi’n anorfod.

**27** Cyflwynwyd terfyn amser statudol o 26 wythnos ar gyfer achosion gofal a goruchwyliaeth ac achosion Rhan 4 eraill gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014. Mae gan y llys hawl i ymestyn achosion am wyth wythnos ar y tro pe bai angen er mwyn cwblhau achosion yn deg. Mae’r ddeddfwriaeth hefyd yn nodi’n glir bod yn rhaid i’r llys, wrth lunio, diwygio neu ymestyn amserlen achos, roi ystyriaeth benodol i’r effaith y gallai’r penderfyniad hwn ei gael ar les y plentyn.

**28** Er mwyn helpu ardaloedd i baratoi ar gyfer cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol, mabwysiadwyd Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig (yr Amlinelliad peilot) gan bob ardal rhwng Gorffennaf a Hydref 2013. Drafftiwyd yr Amlinelliad peilot yn dilyn ymgynghoriad â’r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu, y Swyddfa Farnwrol, Cafcass, a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant. Roedd yn dal mewn grym tan fis Ebrill 2014, a darparodd sail er mwyn i ardaloedd ar hyd a lled y wlad gadw o fewn y terfyn amser os oedd hynny’n bosibl cyn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol.

3 Ymateb y Llywodraeth i’r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, t.12 – www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177097/CM-8273.pdf

**29** Ar 22 Ebrill 2014, daeth Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2014 ar gyfer achosion gofal a goruchwyliaeth ac achosion eraill Rhan 4 i rym. Roedd Amlinelliad 2014 yn cynnwys rhagor o newidiadau yn dilyn adborth a gasglwyd yn ystod yr Amlinelliad peilot, yn ogystal ag ymgynghoriad wedi'i dargedu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu yn ystod Tachwedd – Rhagfyr 2013.

**30** Mae'r Amlinelliad diwygiedig yn cynnwys nifer o fesurau gyda'r bwriad o wella rheolaeth achosion a'r gwaith 'blaenlwytho' sy'n cael ei wneud gan awdurdodau lleol cyn achos. Derbyniodd pob barnwr, ynad, gweithiwr cymdeithasol a chynghorydd cyfreithiol arbenigol ym maes teulu hyfforddiant ar yr Amlinelliad sydd wedi'i ddiweddaru. Cyflwynwyd ffurflen gais newydd ar gyfer achosion gofal a goruchwyliaeth ac achosion Rhan 4 eraill hefyd i gyd-fynd ag Amlinelliad 2014.

**31** Mae Deddf 2014 yn gwneud rhagor o ddarpariaethau sy'n gwneud yn siŵr bod yr amserlen ar gyfer yr achos yn canolbwyntio ar y plentyn a bod penderfyniadau'n cael eu gwneud â chyfeiriad penodol at les y plentyn, a'u bod yn nodi'n glir, pan fo'r llys yn ystyried cynllun gofal, y dylai ganolbwyntio ar y materion hynny sy'n hanfodol i'r penderfyniad a ddylid gwneud gorchymyn gofal ai peidio. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Ddeddf yn dileu'r terfyn amser o wyth wythnos ar gyfer hyd gorchmynion gofal interim cychwynnol a gorchmynion goruchwyliaeth interim, a'r terfyn amser o bedair wythnos ar gyfer gorchmynion dilynol, ac yn caniatáu i'r llys wneud gorchmynion interim am gyfnod sy'n briodol yn ei farn ef, ond heb ymestyn y tu hwnt i'r dyddiad y gwneir penderfyniad ynglŷn ag achosion gorchymyn gofal neu oruchwyliaeth perthnasol.

**32** Mae hyd cyfartalog achosion wedi lleihau tuag 20 wythnos yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i bwyslais penodol a rheolaeth achos gref. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod yr amser cyfartalog ar gyfer penderfynu ynglŷn â gorchymyn gofal a goruchwyliaeth erbyn hyn yn 32 wythnos (Ionawr- Mawrth 2014) – gan barhau â'r duedd ar i lawr o 55 wythnos pan gyflwynwyd adroddiad yr Adolygiad ym mis Tachwedd 2011. Mae hyn yn gynnydd sylweddol, ond mae llawer o waith i'w wneud eto er mwyn adeiladu ar welliannau mewn perfformiad cyfraith gyhoeddus a chyrraedd a chynnal y targed o 26 wythnos.

**33** Yn ogystal â'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol sydd yn Llundain, mae Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol eraill wedi agor yn Milton Keynes a Swydd Buckingham. Canfu gwerthusiad annibynnol o'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Llundain ei fod yn llwyddo i wella canlyniadau i blant drwy fynd i'r afael â chamddefnydd o sylweddau gan rieni yn gynnar mewn achos gofal. Mae Llywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, wedi mynegi cefnogaeth gref i Lysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ac wedi gofyn i Farnwyr Teulu Dynodedig ystyried a ellid sefydlu llysoedd o'r fath yn eu hardaloedd hwy, mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol.

### Rôl arbenigwyr

**34** Canfu'r Adolygiad bod gormod o ddefnydd yn cael ei wneud o adroddiadau arbenigwyr, yn enwedig mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Roedd hyn yn achosi oedi diangen ac roedd amheuaeth ddifrifol ynglŷn â'r gwerth yr oeddent yn ei ychwanegu. Erbyn hyn mae deddfwriaeth sylfaenol wedi cyfyngu ar y defnydd o dystiolaeth arbenigwyr mewn achosion sy'n ymwneud â phlant i'r hyn sydd ei angen er mwyn datrys yr achos yn deg. Os bydd llys yn dymuno caniatáu tystiolaeth arbenigwyr yn yr achosion hyn, rhaid iddo yn awr ystyried effaith yr oedi ar y plentyn ac a fyddai'n bosibl cael y wybodaeth gan y partïon sydd eisoes yn rhan o'r achos.

**35** Mae safonau cytunedig ar gyfer tystion arbenigol wedi cael eu datblygu a chawsant eu cyhoeddi mewn dogfen ar y cyd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu ar hyn o bryd yn ystyried a ddylai'r safonau gael eu cynnwys yn y rheolau trefniadaeth teulu a/neu mewn cyfarwyddiadau ymarfer. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol wedi bod yn arwain gwaith i wella dealltwriaeth cyfreithwyr o'r modd y dylid defnyddio tystion arbenigol.

# Newidiadau i Gyfraith Breifat

> ' Cynorthwyo teuluoedd i ddod i gytundeb drostynt eu hunain.'[4]

**36** Roedd Rhaglen Lywodraethu'r Glymblaid (Mai 2010)[5] yn cynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad cynhwysfawr o gyfraith teulu er mwyn cynyddu'r defnydd o gyfryngu – ymhlith pethau eraill. Ers hynny, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau ei hymrwymiad i hyrwyddo datrys anghydfodau y tu allan i'r llys ac mae'n credu mai rhieni, yn y rhan fwyaf o achosion, yw'r bobl orau i wneud trefniadau yn ymwneud â bywydau eu plant pan fyddant yn gwahanu. Mae'r gred hon yn sail i'r diwygiadau sydd wedi'u gwneud i gyfraith breifat.

## Beth rydym wedi'i wneud

**37** Roedd yr Adolygiad yn credu bod darparu gwybodaeth glir a chyson i rieni am eu cyfrifoldebau wrth wahanu'n hollbwysig. Mae'r Llywodraeth wedi datblygu ap Gwneud Gwahanu yn Llai Cymhleth ('Sorting out Separation') fel y prif gyfrwng ar gyfer darparu gwybodaeth o'r fath. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfrifoldebau rhieni, taflenni ffeithiau a dolenni cyswllt yn arwain at sefydliadau partner amrywiol, sy'n hybu agwedd gydweithredol at wahanu.

**38** Mae newidiadau deddfwriaethol wedi'u gwneud er mwyn cadarnhau pa mor bwysig yw hi bod gan blant berthynas barhaus â'r ddau riant ar ôl i'r teulu chwalu lle bo hyn yn ddiogel ac er pennaf les y plentyn. Fodd bynnag, mae'r darpariaethau hyn yn nodi'n glir bod anghenion lles y plentyn yn dal yn bwysicach na dim a bod yn rhaid i'r llysoedd roi blaenoriaeth i hyn wrth ystyried faint o ran a pha fath o ran fydd gan y rhieni ym mywyd y plentyn. Yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad ar y mater penodol hwn, nid yw'r angen i deidiau a neiniau wneud cais am ganiatâd y llys wrth wneud cais wedi'i newid.

**39** Er mwyn cynorthwyo rhieni i ddod i gytundeb ynglŷn â gofal eu plant, mae cynllun rhianta newydd wedi cael ei ddatblygu. Ei nod yw canolbwyntio'n glir ar y plentyn drwy gydol y broses o ddatrys anghydfod a helpu rhieni i wella'r ffordd y maent yn cyfathrebu â'i gilydd. Cafodd ei lansio ym Mawrth 2014 ac mae ar gael ar wefan Cafcass.

**40** Mae'r gorchymyn trefniadau plentyn newydd y darparwyd ar ei gyfer yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 wedi disodli gorchmynion cyswllt a phreswylio. Mae rhieni'n gymwys i wneud cais am y gorchymyn hwn pa un a oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant ai peidio. Fel cynt, gall aelodau o'r teulu ehangach sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd penodol wneud cais am orchymyn â chaniatâd y llys.

4 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, t.18 – www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177097/CM-8273.pdf
5 www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/78977/coalition_programme_for_government.pdf

**41** I gefnogi hyn, lle bo gorchymyn trefniadau plentyn yn rhoi plentyn yng ngofal rhywun nad yw'n rhiant neu warcheidwad iddo, bydd hefyd yn cael cyfrifoldeb rhiant tra pery'r gorchymyn. Mae hyn yr un fath â'r sefyllfa flaenorol i raddau helaeth; yr unig wahaniaeth yw bod yn rhaid i'r llys, os yw gorchymyn trefniadau plentyn yn enwi rhywun y dylai'r plentyn dreulio amser gydag ef neu hi, ystyried a fyddai'n briodol rhoi cyfrifoldeb rhiant. Mae'r pŵer hwn wedi'i weithredu gan ddiwygiadau i Ddeddf Plant 1989 a wnaethpwyd yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014.

**42** Mae'r Llywodraeth wedi cadw'r sefyllfa lle nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng cyswllt a chynhaliaeth plant. Ni ddylid penderfynu pwy y dylai plentyn ei weld ar sail pwy sy'n gwneud darpariaeth ariannol. Mae gan blant hawl i gael cyswllt a darpariaeth ariannol ac ni ddylai'r un o'r rhieni amddifadu ei blentyn o'r rhain.

## Cyfryngu

**43** I gefnogi'r newid mewn diwylliant sydd ei angen er mwyn annog rhieni a chyplau sy'n gwahanu i gytuno ar drefniadau plant a threfniadau ariannol yn gynharach ac â llai o wrthdaro, mae gofyniad statudol bellach ar ddarpar ymgeiswyr mewn anghydfodau plant ac ariannol preifat i fynd i gyfarfod asesu a gwybodaeth am gyfryngu (MIAM) yn gyntaf i ganfod a ydynt yn addas ar gyfer cyfryngu a dysgu am ddewisiadau ar gyfer datrys anghydfod y tu allan i'r llys. Mae'r eithriadau lle nad oes angen mynd i gyfarfod MIAM yr un fath at ei gilydd â'r rhai dan y Protocol Cyn Ymgeisio. Yn bwysig iawn, os oes tystiolaeth o drais domestig neu risg o drais domestig yna mae'r ymgeisydd yn cael ei eithrio o gyfarfod MIAM a gall fynd yn syth i'r llys. Bydd unrhyw eithriad perthnasol yn cael ei ddatgan ar y ffurflen gais gan yr ymgeisydd, ei gynrychiolydd cyfreithiol neu gyfryngwr.

**44** Er mwyn annog cyfryngu teuluol, rydym yn gweithio mewn cysylltiad agos â'r sector cyfryngu i gefnogi'r Cyngor Cyfryngu Teuluol fel y corff proffesiynol ar gyfer cyfryngwyr teuluol, ac i hyrwyddo cyfryngu teuluol a'i fanteision i bobl sy'n dymuno datrys anghydfodau. Yn ychwanegol at hyn, mae'r Llywodraeth wedi gofyn i David Norgrove gadeirio Tasglu cyfryngu byr am gyfnod cyfyngedig i gynnig argymhellion ar gyfer cynyddu'r nifer sy'n dewis cyfryngu. Erbyn hyn mae'r Tasglu wedi cyflwyno'i adroddiad a chyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r argymhellion ym mis Awst 2014 gan amlinellu cynlluniau i ariannu'r sesiwn cyfryngu unigol cyntaf ar gyfer y ddwy ochr os bydd o leiaf un ohonynt yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Mae hyn yn ychwanegol at gyllid ar gyfer y cyfarfod MIAM i'r ddwy ochr pan fydd o leiaf un person yn gymwys a chyllid ar gyfer yr holl sesiynau cyfryngu a chymorth cyfreithiol â chyfryngu sydd ar gael i unrhyw un sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Disgwylir y bydd y sesiwn cyfryngu unigol cyntaf yn cael ei roi ar waith yn hydref 2014 a bydd yn para am gyfnod o dair blynedd ag adolygiadau bob chwe mis i asesu'r effaith.

## Yr un Llys Teulu

**45** Roedd yr Adolygiad yn nodi'n glir bod bodolaeth gwahanol haenau o lysoedd ar gyfer materion teulu yn ddryslyd i'r teuluoedd a oedd angen defnyddio'r llysoedd. Mewn ymateb i'r angen hwn i symleiddio'r awdurdodaeth a'r systemau a'r prosesau sy'n ei gefnogi, sefydlwyd yr un Llys Teulu ar 22 Ebrill 2014. Roedd y Llys Teulu'n cymryd lle system dair haen y llysoedd achosion teulu, llysoedd sirol a'r Uchel Lys. Gall barnwyr o bob lefel eistedd yn y Llys Teulu, o ynadon i farnwyr yr Uchel Lys ac uwch. Fel yr argymhellwyd yn yr Adolygiad mae'r Llys Teulu'n darparu pwyntiau mynediad dynodedig i bob ymgeisydd, gan ddileu'r broses ddryslyd yr oeddent yn ei hwynebu cyn hyn.

**46** Mae ceisiadau'n cael eu dyrannu nawr i'r barnwr ar y lefel fwyaf priodol. Mae dyraniad gan dîm didoli yn seiliedig ar asesiad o nifer o ffactorau, megis cymhlethdod achos, dilyniant barnwrol, yr angen i leihau oedi a lleoliad addas ar gyfer gwrandawiadau. Gan fod barnwyr o bob lefel yn gallu eistedd yn y Llys Teulu, nid oes angen trosglwyddo achosion i lysoedd gwahanol. Bydd hyn yn lleihau oedi ac yn sicrhau mwy o ddilyniant i deuluoedd sy'n rhan o achos llys. Gall y Llys Teulu eistedd yn unrhyw le, ond



mae'r rhan fwyaf o achosion teulu'n dal i gael eu clywed mewn llysoedd ynadon ac yn y Llys Sirol.

**47** Wrth sefydlu'r un Llys Teulu, deddfodd y Llywodraeth er mwyn cysoni pwerau Barnwyr Rhanbarth yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad. Mae Barnwyr Rhanbarth o bob math yn eistedd ar lefel Barnwr Rhanbarth yn y Llys Teulu cyn belled bod ganddynt yr awdurdodiad priodol a dylid dyrannu gwaith ar yr un lefel iddynt pa un a ydynt yn Farnwr Rhanbarth Prif Gofrestrfa'r Adran Deulu, yn Farnwr Rhanbarth sydd hefyd yn eistedd yn y Llys Sirol neu'n Farnwr Rhanbarth (llysoedd ynadon).

**48** Er bod gan y Llys Teulu bwerau'r Uchel Lys a'r Llys Sirol, bydd yr Uchel Lys yn dal i wrando achosion sy'n rhan o awdurdodaeth gyfyngedig yr Uchel Lys. Ni fydd angen i achosion sy'n mynd yn gymhleth ac sydd angen eu codi i'r Uchel Lys gael eu trosglwyddo i'r Uchel Lys mwyach. Byddant yn aros yn y Llys Teulu ond yn cael eu clywed gan farnwr yr Uchel Lys. Dylai hyn leihau oedi.

# Datblygu arweinyddiaeth y system cyfiawnder teuluol

> 'Drwy ein diwygiadau arfaethedig ein nod yw creu system gydlynol ac effeithiol sy'n manteisio ar yr arbenigedd y mae pob parti'n ei gynnig iddi ac sy'n cyflawni'n effeithiol i ddefnyddwyr.'[6]

**49** Roedd asesiad yr Adolygiad o'r system cyfiawnder teuluol yn feirniadol iawn. Mewn gwirionedd roedd yn dadlau mai prin y gellid ei galw'n system. Erbyn hyn mae'r Llywodraeth wedi ceisio adeiladu system sy'n canolbwyntio ar blant ac sy'n seiliedig ar bartneriaethau cryf rhwng yr holl sefydliadau sy'n ymwneud â hi. Mae hyn wedi arwain at sefydlu'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ym mis Mawrth 2012 a chreu Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol ar hyd a lled y wlad yn dilyn hynny.

### Beth rydym wedi'i wneud

**50** Cafodd nawdd y Llywodraeth i'r Gwasanaethau Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) ei drosglwyddo o'r Adran Addysg i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Ebrill 2014.

**51** Roedd yr Adolygiad, dan gadeiryddiaeth David Norgrove, yn cydnabod bod angen gwella arweiniad a chydlyniad cyfiawnder teuluol. Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn 2012 ac mae'n dod ag uwch aelodau o'r sefydliadau craidd yn y system cyfiawnder teuluol sydd ag awdurdod i wneud penderfyniadau gweithredol a neilltuo adnoddau at ei gilydd. Ers ei sefydlu mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o drafod newid diwylliannol ar draws y system cyfiawnder teuluol a hybu diwygio radical.

**52** Sefydlwyd Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol yn 2012 ac mae'n ofynnol iddynt archwilio prosesau lleol ac adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol drwy'r Is-grŵp Gwybodaeth am Berfformiad. Mae'r Is-grŵp yn gyfrifol am ysgogi gwaith y Bwrdd i wella perfformiad y system yn genedlaethol. Mae'r Is-grŵp yn goruchwylio'r modd y mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol yn cyflawni agenda'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn lleol, er mwyn gwella perfformiad lleol. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n olrhain cynnydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ar sail nifer o fesurau perfformiad allweddol y cytunwyd arnynt. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13. Cyhoeddir yr ail adroddiad ar gyfer 2013-14 ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

6 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, t.25 – www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177097/CM-8273.pdf

# Y farnwriaeth a'r gweithlu ehangach

> 'Drwy ein diwygiadau arfaethedig byddwn yn datblygu gweithlu mwy cymwys ac abl.'[7]

**53** Fel y mae'r Llywodraeth wedi nodi yn ei hymateb i'r Adolygiad, mae'r sefydliadau a'r unigolion amrywiol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder teuluol wedi gallu gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwasanaeth y mae ar deuluoedd a phlant ei angen.

## Beth rydym wedi'i wneud

**54** Mae uwch farnwyr, gan gynnwys barnwyr teulu dynodedig wedi cael hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth er mis Rhagfyr 2012. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar berthnasoedd ac arweiniad teuluol yn ogystal â'r sgiliau barnwrol penodol ar gyfer arwain timau canolfannau llysoedd. Ers mis Mawrth 2014 mae'n rhaid i bob barnwr newydd sydd mewn swydd arweiniol ddilyn hyfforddiant arweinyddiaeth sy'n cael ei redeg gan y Coleg Barnwrol.

**55** Cyflwynwyd ystod o fesurau er mwyn helpu i wella dilyniant barnwrol mewn achosion teulu, mater a oedd ym marn yr Adolygiad yn hollbwysig er mwyn gwella'r system.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan GLlTEM ac y cytunwyd arnynt gan Feistr y Rholiau a Llywydd yr Adran Deulu yn nodi bod angen sefydlu trefniadau lleol rhwng swyddogion llys a'r farnwriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod dilyniant barnwrol yn cael ei gymhwyso i bob achos perthnasol. Mae dogfennau ategol i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, gan gynnwys Canllawiau'r Llywydd ar Ddilyniant a Gweithredu Barnwrol yn ymestyn y galw am ddilyniant i gynghorwyr cyfreithiol arbenigol ac ynadon.

**56** Mae hyfforddiant sy'n ymwneud yn benodol â'r diwygiadau wedi cael ei ddarparu i bob barnwr sydd â thocyn cyfraith gyhoeddus. Paratowyd deunydd hyfforddi ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol ac ynadon gan y Coleg Barnwrol, ac maent wedi cael eu darparu ledled Cymru a Lloegr.

## Gwasanaethau plant

**57** Mae'r Llywodraeth yn darparu £8m o gyllid i'r Coleg Staff Rhithwir er mwyn cynllunio a threfnu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol i brif swyddogion a deiliaid uwch swyddi arweiniol mewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol. Bydd cyfarwyddwyr gwasanaethau plant yn gallu defnyddio gwasanaethau mentora cyfoedion a chymorth i fynd i'r afael â heriau mawr drwy'r system gyfan er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau a chael mwy o effaith ar ganlyniadau.

7 Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol, t.28 – www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/177097/CM-8273.pdf

**58** Dangosodd gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan Judith Masson yn 2013, 'Partnership by Law?', y gall y 'Llythyr Cyn Achos' fod yn fuddiol iawn os yw'n cael ei ddefnyddio'n briodol. Ambell waith gall gyfeirio achos o'r llys yn gyfan gwbl. Ar ôl derbyn cyngor ac ymgynghori'n helaeth, mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd awdurdodau lleol yn rhoi un o ddau lythyr i rieni gan ddibynnu faint o frys sydd â'r achos. Os nad yw'n achos brys, anfonir llythyr cyn achos yn nodi bod achos yn debygol ac yn gwahodd trafodaeth. Os yw'r awdurdod yn credu bod angen achos ar unwaith, anfonir llythyr cychwyn achos.

**59** Er mwyn gwella cysylltiadau rhwng y llysoedd a'r swyddog adolygu annibynnol, a rhwng y gwarcheidwad a'r swyddog adolygu annibynnol, datblygwyd protocol ymarfer da. Bu Cafcass, y Grŵp Rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol a Chymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Adolygu Annibynnol mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg yn gweithio gyda'i gilydd ar ganllawiau sy'n nodi rolau perthynol swyddogion Cafcass a swyddogion adolygu annibynnol mewn achosion gofal. Mae Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant wedi cymeradwyo'r protocol fel ymarfer da ac wedi annog pob awdurdod lleol i'w ddefnyddio yn eu gwaith achosion.

**60** Comisiynodd y Llywodraeth y Coleg Gwaith Cymdeithasol i ddatblygu canllaw cwricwlwm byr ar wybodaeth a sgiliau sy'n berthnasol i achosion gofal wedi'i anelu at sefydliadau addysg uwch, awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant DPP i weithwyr cymdeithasol. Cyhoeddwyd y canllaw hwn ym mis Mai 2013 ac mae ar gael ar wefan y Coleg Gwaith Cymdeithasol. Rydym hefyd yn ystyried sut y gellir gweithredu argymhellion adolygiad Martin Narey o addysg gwaith cymdeithasol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014.

## Y gwasanaeth llys

**61** Mae GLlTEM a'r farnwriaeth wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y Llywodraeth i gynllunio a gweithredu prosesau rheoli achosion effeithiol mewn cyfraith breifat a chyhoeddus. Mae gwella'r ffordd y mae achosion cyfraith gyhoeddus yn cael eu cefnogi a'u symud ymlaen yn un o brif amcanion busnes GLlTEM. Mae gan yr asiantaeth fwy o adnoddau diwrnodau eistedd, ac mae wedi gwella ei offer gwybodaeth rheoli a rheoli achosion (mewn ymateb i argymhellion penodol yn yr Adolygiad), a gweithredu cynllun gwella perfformiad wedi'i dargedu, sy'n cael ei arwain a'i gyflenwi gan ranbarthau GLlTEM unigol. Mae Cyfarwyddwr GLlTEM hefyd yn cadeirio Is-grŵp Gwella Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol.

**62** Argymhellodd yr Adolygiad y dylai clercod ynadon gael yr hyblygrwydd i gyflawni gwaith i gefnogi barnwyr mewn llysoedd teulu. Mae'r Llywodraeth wedi deddfu i ganiatáu i glercod ynadon gyflawni swyddogaethau yn y llys teulu gan gynnwys ymdrin ag achosion ysgariad nad ydynt yn cael eu hymladd. Cytunwyd ar y rheolau newydd gan Lywydd yr Adran Deulu a byddant yn rhoi mwy o amser i farnwyr ganolbwyntio ar achosion mwy cymhleth.

# Atodiad Argymhellion

Mae'r atodiad hwn yn amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud â phob un o 134 o argymhellion yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Er mwyn gallu cyfeirio atynt yn rhwydd maent wedi cael eu grwpio dan yr un penawdau ag a ddefnyddiwyd yn ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol.

Mae wedi'i rannu'n 3 adran:

1. Argymhellion a gwblhawyd
2. Argymhellion heb eu cwblhau
3. Argymhellion hirdymor neu heb eu gweithredu

| Nifer. | Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Llais y plentyn** | | |
| 1 | Dylai plant a phobl ifanc gael gwybodaeth sy'n briodol i'w hoedran i egluro beth sy'n digwydd pan fyddant yn gysylltiedig ag achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. | Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wedi cynhyrchu rhestr termau sy'n addas ar gyfer plant. Mae hefyd wedi helpu i lunio gwybodaeth addas i blant y gall cynghorwyr llysoedd teulu ei rhoi i'r plentyn ar ddechrau achos. |
| 126 | Dylid rhoi cyfle i blant a phobl ifanc gael gwrandawiad i'w barn mewn achosion sy'n ymwneud â nhw, os ydynt yn dymuno. | Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo y bydd plant a phobl ifanc 10 oed a hŷn sy'n gysylltiedig â gwrandawiad llys teulu yng Nghymru a Lloegr yn cael cyfle i siarad â barnwyr i sicrhau bod eu barn a'u teimladau'n hysbys. |
| 3 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol roi arweiniad wrth ddatblygu a lledaenu safonau a chanllawiau cenedlaethol ar weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y system. Dylai hefyd:<br>i) sicrhau cysondeb gwasanaethau cefnogi, gwybodaeth i bobl ifanc ac arferion sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws y wlad; a<br>ii) goruchwylio'r gwaith o ledaenu ymchwil gyfredol a dadansoddi anghenion, barn a datblygiad plant. | Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wrthi'n datblygu Siarter Cenedlaethol ar gyfer system cyfiawnder teuluol sy'n cynnwys plant. Mae ymrwymiadau unigol yn cael eu llunio gyda sefydliadau priodol.<br>Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol hefyd yn archwilio swyddfeydd Cafcass a chanolfannau cyswllt achrededig Cymdeithas Genedlaethol Canolfannau Cyswllt â Phlant (NACCC). Mae rhaglen beilot sy'n adolygu llysoedd wedi cychwyn yng Nghaerefrog. |
| 4 | Dylid cael Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol, â'r cylch gorchwyl o ystyried materion mewn cyfraith gyhoeddus a phreifat ac adrodd yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth am feysydd sy'n peri pryder neu sydd o ddiddordeb. | Mae'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol yn grŵp o tua 43 o blant a phobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system cyfiawnder teuluol neu sydd â diddordeb mewn hawliau plant a'r llysoedd teulu. Sefydlwyd y Bwrdd, a ffurfiwyd yn wreiddiol gan Cafcass, yn 2006 er mwyn helpu'r sefydliad i ddal i ganolbwyntio ar blant a phobl ifanc.<br>Cydnabuwyd ei lwyddiant yn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol a chafodd y Bwrdd ei ehangu i gynnwys y system cyfiawnder teuluol yn ei chyfanrwydd yn Lloegr. Cylch gorchwyl y Bwrdd yw helpu i sicrhau bod gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn canolbwyntio ar blant ac yn cynnwys plant. |
| 5 | Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig fonitro effaith Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ofalus. | Mae pumed adroddiad adolygiad cyfnodol Parti Gwladol y Deyrnas Unedig i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig sy'n gyfrifol am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gyflwynwyd ym mis Mai 2014, yn cynnwys manylion am Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Dim ond ym mis Mai 2014 y daeth y Mesur i rym yn iawn pan gafodd ei ymestyn i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau plant pryd bynnag y maent yn cyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau. Bydd cyswllt rheolaidd â Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau fel rhan o broses adrodd barhaus Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. |

| Y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol | | |
|---|---|---|
| 6, 7, 8, 11 | Dylai Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gael ei sefydlu, dan nawdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder, â chysylltiadau cryf ar lefel Gweinidogion a swyddogion â'r Adran Addysg a Llywodraeth Cymru. Fel cam cyntaf, dylid sefydlu Bwrdd Dros Dro, a ddylai gael cylch gwaith clir i gynllunio ar gyfer newid mwy sylfaenol gan ddilyn amserlen wedi'i diffinio nes sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol.<br><br>Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol fod â threfniadau llywodraethu canolog a lleol cryf.<br><br>Bydd angen y rolau a gyflawnir gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol mewn unrhyw strwythur newydd ond bydd angen i'r llywodraeth ystyried sut y gellir eu harfer mewn modd sy'n cydweddu â threfniant terfynol y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol (a'r Bwrdd Dros Dro).<br><br>Dylid gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant wrth gyflawni ei swyddogaethau. Dylai adroddiad blynyddol egluro sut y mae'r ddyletswydd hon wedi'i chyflawni. | Ar ôl ystyried yn ofalus, penderfynwyd nad oedd Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol yn elfen angenrheidiol o ddiwygio cyfiawnder teuluol yn y cyd-destun presennol. Sefydlwyd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol er mwyn gwella perfformiad y system cyfiawnder teuluol a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n dod i gysylltiad â hi. Cylch gorchwyl canolog y Bwrdd yw ysgogi gwelliannau ym mherfformiad y system, darparu arweiniad a gwella gweithio trawsasiantaethol.<br><br>Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Gadeirydd annibynnol a benodwyd i ddechrau yn dilyn cystadleuaeth agored. Mae'r Cadeirydd yn atebol i'r Ysgrifennydd Cyfiawnder a'r Ysgrifennydd Addysg drwy set o Fesurau Perfformiad Allweddol (MPA). Mae'r Mesurau Perfformiad Allweddol hyn yn cael eu monitro'n ofalus gan yr Is-grŵp Gwella Perfformiad, Bwrdd a sefydlwyd i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad ar draws y System Cyfiawnder Teuluol. Mae'r Is-grŵp yn goruchwylio rhwydwaith o 44 o Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol sy'n darparu adroddiadau chwarterol am eu cynnydd. Mae'r farnwriaeth yn sylwedyddion annibynnol ar y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol a'r Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol. Mae'r Cadeirydd annibynnol newydd gael ei ailbenodi am ddwy flynedd arall.<br><br>Mae'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol wedi cael ei drawsnewid yn grŵp cynghori annibynnol i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol (ac mae'n un o'i dri is-grŵp) ac mae'n gweithredu fel cyfaill beirniadol gan roi cyngor arbenigol iddo o safbwynt rhyngddisgyblaethol. Nod cyffredinol y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yw helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn adrodd yn flynyddol i'r Ysgrifennydd Addysg a'r Ysgrifennydd Cyfiawnder. Mae ei adroddiad blynyddol hefyd ar gael i'r cyhoedd. |
| 14, 15 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gydgysylltu system gyfan o drafod ymchwil a gwerthuso, yn cael ei chefnogi gan gyllideb wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil (wedi'i chyfuno o gyllidebau'r gwahanol gyrff sy'n comisiynu ymchwil ar hyn o bryd.)<br><br>Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gynnal adolygiad ac ystyried sut y dylid lledaenu ymchwil o amgylch y system cyfiawnder teuluol. | Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi datblygu rhaglen ymchwil gydgysylltiedig i gyfiawnder teuluol gydag Adrannau eraill y Llywodraeth a'r gymuned academaidd. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi sefydlu rhith grŵp o academyddion ac ymarferwyr yr ymgynghorir â hwy yn ôl y galw i gefnogi a datblygu ein rhaglen ymchwil.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynhyrchu bwletin ymchwil i gyfiawnder teuluol sy'n crynhoi ymchwil berthnasol yn y maes hwn. Mae'r bwletin yn cael ei ddosbarthu i ymarferwyr cyfiawnder teuluol ac i'r farnwriaeth. Bydd y rhifyn diweddaraf ac unrhyw fwletinau yn y dyfodol ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. |

| Arweinyddiaeth a Diwylliant Barnwrol | | |
|---|---|---|
| 16, 17, 18, 19, 20 | Dylai Is-lywydd yn yr Adran Deulu gefnogi Llywydd yr Adran Deulu yn ei rôl arwain, gan fonitro perfformiad y farnwriaeth deuluol yn gyffredinol.<br><br>Dylid ailenwi Barnwyr yr Adran Deulu'n Farnwyr Llywyddol Teuluol, a fydd yn adrodd i Is-lywydd yr Adran Deulu ar faterion perfformiad yn eu cylchdaith.<br><br>Dylai barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain gael cyfrifoldebau rheoli cliriach. Dylid cael disgrifiadau swydd mwy pendant, sy'n nodi disgwyliadau clir o ran cyfrifoldebau rheoli a gweithio rhwng asiantaethau.<br><br>Dylai GLlTEM drefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer llysoedd ac ardaloedd fod ar gael i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. Dylid trefnu i wybodaeth am ddangosyddion allweddol ar gyfer barnwyr unigol fod ar gael i'r barnwyr hynny yn ogystal â barnwyr sydd â chyfrifoldebau arwain. Dylai'r farnwriaeth gytuno ar y dangosyddion allweddol.<br><br>Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig fod â chyfrifoldeb arwain dros yr holl lysoedd yn eu hardal. Bydd angen iddynt gydweithio'n agos â Chlercod yr Ynadon, cadeiryddion meinciau teulu a chyd-farnwyr. | Yn dilyn ymgynghoriad rhwng y llywodraeth a'r uwch farnwriaeth penderfynwyd nad oedd angen gweithredu argymhelliad 16. Yn hytrach, bydd y farnwriaeth yn cyflawni unrhyw newidiadau sydd eu hangen yng nghyswllt arweinyddiaeth o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.<br><br>Ar 13 Tachwedd 2013 penodwyd Meistres Ustus Pauffley DBE yn Uwch Farnwr Cyswllt Teulu, gan ddechrau ar unwaith, am gyfnod o 3 blynedd, gan Lywydd yr Adran Deulu, yn dilyn ymgynghoriad â'r Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd. Am y tro, mae hyn yn ychwanegol at ei rôl fel Barnwr Cyswllt Teulu ar gyfer Llundain a Dyffryn Tafwys.<br><br>Yn dilyn ymgynghoriad rhwng y llywodraeth a'r uwch farnwriaeth penderfynwyd nad oedd angen gweithredu argymhelliad 17. Yn hytrach, bydd y farnwriaeth yn cyflawni unrhyw newidiadau sydd eu hangen yng nghyswllt arweinyddiaeth o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol.<br><br>Cwblhawyd a chyhoeddwyd y disgrifiad swydd ar gyfer Barnwyr Teulu Dynodedig ym mis Ionawr 2012.<br><br>Cwblhawyd Disgrifiadau Swydd ar gyfer Barnwyr Cyswllt yr Adran Deulu hefyd.<br><br>Mae Barnwyr Teulu Dynodedig yn cael crynhoad chwarterol o ystadegau perfformiad GLlTEM ac yn cael gweld y data a gedwir ar y System Monitro Gofal. Mae gwybodaeth gan GLlTEM yn cael ei rhannu'n rheolaidd â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ac yn cael ei defnyddio i fonitro perfformiad ar sail eu Mesurau Perfformiad Allweddol.<br><br>Mae hyfforddiant arwain a rheoli wedi cael ei ddarparu a'i ategu i'r uwch farnwyr o fis Rhagfyr 2012. Cafodd yr hyfforddiant hwn ei gynllunio a'i ddarparu ar y cyd â chydweithwyr yn GLlTEM a'r ynadon, ac roedd yn canolbwyntio ar y perthnasoedd hyn ac ar sgiliau cyffredinol yn ogystal â barnwrol i dimau canolfannau llysoedd arweiniol. |

| | | |
|---|---|---|
| 21, 22, 23, 24 | Dylai'r farnwriaeth geisio sicrhau dilyniant barnwrol yn yr holl achosion teulu.<br><br>Dylai'r farnwriaeth sicrhau bod amod i gymryd gwaith teulu'n cynnwys parodrwydd i addasu patrymau gwaith er mwyn gallu cynnig dilyniant.<br><br>Dylai Llywydd yr Adran Deulu ystyried pa gamau y dylid eu cymryd i ganiatáu modd i sicrhau dilyniant yn yr Uchel Lys.<br><br>Mewn Llysoedd Achosion Teulu, dylai dilyniant barnwrol gael ei ddarparu, os oes modd, gan holl aelodau'r fainc a'r cynghorydd cyfreithiol. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid darparu dilyniant drwy'r un cadeirydd mainc, aelod mainc a chynghorydd cyfreithiol. | Mae dogfennau ategol ar gyfer yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn cynnwys Canllawiau'r Llywydd ar Ddilyniant a Gweithredu Barnwrol. Mae hyn yn ymestyn i gynghorwyr cyfreithiol arbenigol ac ynadon.<br><br>Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan GLlTEM ac a gymeradwywyd gan Feistr y Rholiau a Llywydd yr Adran Deulu'n nodi y dylid sefydlu trefniadau lleol rhwng swyddogion rhestru'r llysoedd a'r farnwriaeth er mwyn sicrhau bod dilyniant barnwrol yn cael ei gymhwyso i bob achos teulu perthnasol fel mater o frys. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hatodi at Ganllawiau'r Llywydd ar Ddilyniant a Gweithredu Barnwrol ac yn eu cefnogi.<br><br>Er 22 Ebrill 2014, mae barnwyr yr Uchel Lys yn eistedd fel barnwyr Llys Teulu ar gyfer y rhan fwyaf o achosion felly mae'r un agwedd at ddilyniant barnwrol yn berthnasol iddynt hwy ag i weddill y Llys Teulu.<br><br>Gan eu bod wedi derbyn cyngor GLlTEM a'r ynadon, mae'r Canllawiau ar Ddilyniant a Gweithredu Barnwrol a gyhoeddwyd gan Lywydd yr Adran Deulu'n nodi fel a ganlyn: 'Wherever possible, the court which resumes the hearing shall be composed of the same lay justices as dealt with the previous part of the hearing; alternatively continuity is to be provided by at least one of the lay justices (preferably the chairman) as well as the legal adviser who is the case manager for the proceedings'. |
| 25, 26 | Dylid galluogi ac annog barnwyr ac ynadon i arbenigo mewn materion teuluol.<br><br>Dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ystyried parodrwydd i arbenigo mewn materion teuluol wrth benodi i'r farnwriaeth deuluol. | Mae rhai ynadon eisoes yn eistedd yn yr awdurdodaeth deuluol yn unig. Mae Gweinidogion yn ystyried cynnwys cwestiynau ar y mater hwn mewn ymgynghoriad a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.<br><br>Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn dewis ar sail teilyngdod a rhaid i ymgeiswyr fodloni meini prawf penodol a fydd yn cynnwys cyfraith teulu'n benodol er mwyn cael eu dewis ar gyfer eu penodi. Wrth gynllunio ymarferion dewis, ystyrir gofynion teulu gan weithio mewn cysylltiad agos â Barnwyr Cyswllt yr Adran Deulu, GLlTEM a'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol. |

| **Rheoli achosion** | | |
|---|---|---|
| 28 | Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth adolygu a chynllunio ynghylch sut i reoli achosion mewn llysoedd mewn modd sy'n gyson effeithiol. | Mae GLlTEM a'r Farnwriaeth wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y llywodraeth yn gyffredinol er mwyn cynllunio a gweithredu newidiadau rheoli achosion effeithiol ar gyfer achosion plant mewn cyfraith gyhoeddus a chyfraith breifat. Mae'r rhain wedi arwain at ddiwygiadau i'r Cyfarwyddiadau Ymarfer sy'n cefnogi'r Rheolau Trefniadaeth Teulu. Rhoddwyd Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus newydd 2014 (PD12A) a'r Rhaglen Trefniadau Plentyn newydd (PD12B) ar waith ar 22 Ebrill 2014. |

| Y llysoedd | | |
|---|---|---|
| 29, 30, 32, 33 | Dylai un llys teulu, gydag un pwynt mynediad, gymryd lle tair haen bresennol y llysoedd. Dylai rhai ar bob lefel yn y farnwriaeth deuluol (gan gynnwys ynadon) eistedd yn y llys teulu a dylid dyrannu gwaith yn ôl cymhlethdod yr achos.<br><br>Dylid alinio rolau Barnwyr Rhanbarth sy'n gweithio yn y llys teulu.<br><br>Dylai Adran Deulu'r Uchel Lys barhau, gydag awdurdodaeth unigryw dros achosion sy'n ymwneud â'r awdurdodaeth gynhenid a gwaith rhyngwladol sydd wedi'i ragnodi gan Lywydd yr Adran Deulu fel gwaith sydd wedi'i neilltuo ar ei gyfer.<br><br>Dylid gwrando pob mater arall yn yr un llys teulu. Dylai barnwyr yr Uchel Lys wrando'r achosion a'r materion mwyaf cymhleth. | Daeth y Llys Teulu newydd i fodolaeth ar 22 Ebrill 2014. Gall rhai ar bob lefel yn y farnwriaeth, gan gynnwys ynadon, eistedd yn y Llys Teulu. Dyrennir gwaith i'r lefelau gwahanol o farnwyr yn y Llys Teulu mewn nifer o ffyrdd. Bydd y mathau hynny o geisiadau y mae angen rheoli mynediad atynt, gan gynnwys pob cais dan y Ddeddf Plant, yn cael eu dyrannu gan dîm porthgadw a fydd yn penderfynu i farnwr ar ba lefel y dylid dyrannu achos ar sail nifer o ffactorau sy'n cynnwys cymhlethdod, dilyniant, oedi a lleoliad y plentyn.<br><br>Gall unrhyw Farnwr Rhanbarth ymdrin ag achosion sy'n cael eu dyrannu i lefel Barnwr Rhanbarth cyn belled ei fod wedi'i awdurdodi i wrando'r categori hwnnw o achosion. Yn lleol, dyrennir achosion i'r barnwr cywir, a bydd profiad ac arbenigedd y barnwyr rhanbarth yn ffactor mewn penderfyniadau dyrannu.<br><br>(32&33) Mae'r un Llys Teulu'n ymdrin â phob achos teuluol ac eithrio'r dosbarthiadau presennol o achosion sydd eisoes wedi'u cadw i Farnwyr yr Adran Deulu. Bydd yr achosion hyn yn dal i gael eu cychwyn a'u hystyried yn yr Uchel Lys. Tra bydd pob achos teulu arall yn cael ei glywed yn y Llys Teulu, bydd y rhai mwyaf cymhleth yn cael eu hystyried gan Farnwr yr Uchel Lys yn eistedd yn y Llys Teulu. |
| 31 | Dylid cael hyblygrwydd er mwyn i gynghorwyr cyfreithiol ymgymryd â gwaith i helpu barnwyr ym mhob rhan o'r llys teulu. | Deddfodd y Llywodraeth er mwyn galluogi clercod ynadon a'u cynorthwywyr i helpu barnwyr ar bob lefel yn y Llys Teulu. Deddfodd hefyd er mwyn awdurdodi ynadon i gyflawni rhai o swyddogaethau'r llys megis ymdrin â cheisiadau am ysgariad nad ydynt yn cael eu hymladd. |
| 38 | Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth adolygu gweithrediad a threfniant y llysoedd teulu yn Llundain. | Mae Llywydd yr Adran Deulu wedi cytuno ar strwythur newydd ar gyfer rheoli gwaith teulu yn Llundain gyda GLlTEM. Mae hyn yn cynnwys creu Llys Teulu ar gyfer canol, gorllewin a dwyrain Llundain, a phob un yn cael ei arwain gan Farnwr Teulu Dynodedig. |

| Y gweithlu | | |
|---|---|---|
| 45 | Dylid cael system o adolygiadau achos o brosesau i helpu i sefydlu ymarfer myfyriol yn y system cyfiawnder teuluol. | Mae Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol yn archwilio prosesau lleol ac yn adrodd i'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol cenedlaethol. |
| 46, 47, 48, 49, 50 | Dylai'r Coleg Barnwrol adolygu'r dull o ddarparu hyfforddiant er mwyn pennu manteision darparu cwrs sgiliau barnwrol craidd ar gyfer holl aelodau newydd y farnwriaeth.<br><br>Dylai'r Coleg Barnwrol ddatblygu hyfforddiant i helpu uwch farnwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau arwain.<br><br>Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant barnwrol ar gyfer gwaith teuluol yn cynnwys mwy o bwyslais ar ddatblygiad plant a rheoli achosion.<br><br>Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant sefydlu i'r farnwriaeth deulu'n cynnwys ymweliadau ag asiantaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r system.<br><br>Dylid cael disgwyliad y bydd holl aelodau'r farnwriaeth leol, yn cynnwys y fainc leyg a chynghorwyr cyfreithiol sy'n ymwneud â gwaith teuluol, yn dod at ei gilydd mewn gweithgareddau hyfforddi. | Mae'r Coleg Barnwrol yn cynllunio rhaglen e-ddysgu fodiwlaidd ar gyfer pob deiliad swydd farnwrol broffesiynol newydd i'w cyflwyno i'r 'busnes barnu'. Bydd hyn yn ategu eu hyfforddiant cynefino wyneb yn wyneb a dylai fod ar gael o hydref 2014 ymlaen.<br><br>Mae seminarau sgiliau barnwrol wyneb yn wyneb diwygiedig ar gael ar hyn o bryd o'r prosbectws newydd ar gyfer aelodau profiadol presennol y farnwriaeth. Mae'r pwyllgorau hyfforddiant ynadol wedi cytuno y dylai rhannau o'r seminar sgiliau barnwrol gael eu haddasu i gael eu defnyddio pan fo'r rhaglen waith yn caniatáu.<br><br>Mae hyfforddiant arweinyddiaeth Cadeirio Panel Teulu wedi'i sefydlu'n dda ac yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y Coleg Barnwrol i Gadeiryddion Panel Teulu sydd newydd gael eu penodi.<br><br>Cafodd rhaglen dau ddiwrnod ychwanegol ar gyfer pob Barnwr Cyswllt Teulu Dynodedig a Barnwr Teulu Dynodedig mewn sgiliau arweinyddiaeth a rheoli teulu ei chynllunio gan y Coleg Barnwrol gyda'r tîm moderneiddio teulu yn y Swyddfa Farnwrol. Cyflwynwyd y rhaglen mewn dau gam yn Rhagfyr 2012 ac Ebrill 2013. Erbyn hyn mae pob barnwr arweinyddiaeth newydd yn dilyn hyfforddiant arweinyddiaeth, sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd gan y Coleg. Dechreuodd hyn ym mis Mawrth 2014.<br><br>Mae'r Coleg Barnwrol eisoes yn darparu hyfforddiant ar reoli achosion a datblygiad plant, ond mae hyn yn cael ei adolygu ac yn cael ei dargedu'n fwy penodol yn dilyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Mae pob barnwr teulu proffesiynol sydd â thocyn cyfraith breifat, nifer o gadeiryddion panel teulu a chynghorwyr cyfreithiol arweiniol wedi cael hyfforddant ar y diwygiadau i gyfraith breifat, â phwyslais ar reoli achosion. Mae'r pecynnau hyfforddi ar gyfer ynadon a chynghorwyr cyfreithiol wedi cael eu cyhoeddi ar System Rheoli Dysgu'r Coleg.<br><br>Mae System Rheoli Dysgu'r Coleg Barnwrol wedi cael ei lansio ac mae'n cynnwys e-lyfrgell teulu ar gyfer papurau priodol.<br><br>Cyfrifoldeb barnwyr unigol yw trefnu ymweliadau yn lleol, a thelir costau rhesymol ond angenrheidiol ar gyfer ymweliadau o'r fath yn lleol.<br><br>Mae'r Coleg Barnwrol yn paratoi deunyddiau hyfforddi ar gyfer cynghorwyr cyfreithiol ac ynadon sy'n cael eu cyflwyno'n lleol gan gynghorwyr cyfreithiol teulu sydd wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau cyflwyno gan y coleg. Mae'r deunyddiau'n annog hyfforddwyr i wahodd aelodau o'r farnwriaeth leol i gyfrannu tuag at y digwyddiadau hyfforddi. Mae'r cyrsiau Cadeiryddiaeth Panel Teulu blynyddol ar gyfer ynadon yn cynnwys sesiwn sy'n cael ei arwain gan y Barnwr Teulu Dynodedig a chlerc yr ynadon i annog gwaith a hyfforddiant symbiotig.<br><br>Roedd digwyddiad hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth Tachwedd 2013 ar gyfer uwch farnwyr teulu yn cynnwys cyfraniadau gan y llysoedd achosion teulu yn y drafodaeth barhaus ar ddatblygiad yr un llys teulu a newidiadau yn yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus i sicrhau bod yr holl rolau teulu'n cael eu hystyried. |

| | | |
|---|---|---|
| 54, 55, 67 | Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod hyfforddiant sefydlu i ynadon teulu newydd yn cynnwys mwy o bwyslais ar reoli achosion, datblygiad plant ac ymweliadau ag asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r system.<br><br>Dylai'r Coleg Barnwrol sicrhau bod cynghorwyr cyfreithiol yn cael hyfforddiant penodol ar reoli achosion.<br><br>Mae gwahanol lysoedd yn defnyddio gwahanol ddulliau o reoli achosion mewn cyfraith gyhoeddus. Mae angen i'r farnwriaeth gasglu'r rhain, ymchwilio iddynt a'u lledaenu er mwyn rhannu'r arferion gorau a sicrhau cysondeb. | Mae ynadon yn cwblhau'r Rhaglen Hyfforddi Genedlaethol (MNTI cyn hyn) ac yn cael eu hasesu ar sail cyfres o gymwyseddau. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cynefino, cyfnerthu a chadeirio. Mae'r cyrsiau hyfforddiant teulu presennol eisoes yn cynnwys rheoli achosion ond maent yn cael eu hadolygu a'u hailystyried yng ngoleuni'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Gan mai deunydd y Coleg Barnwrol yn cael ei ddarparu'n lleol gan GLlTEM yw'r hyfforddiant hwn, er mwyn sicrhau cysondeb, byddai angen i wybodaeth am ddatblygiad plant fod ar ffurf crynodeb wedi'i gymeradwyo o ymchwil a wnaethpwyd yn ddiweddar. Bydd System Rheoli Dysgu newydd y Coleg Barnwrol ar gael i ynadon sy'n gallu cael mynediad at gyfrifiadur ac mae'n cynnwys e-lyfrgell lle gellir darparu ymchwil wedi'i gymeradwyo a deunyddiau eraill. Mae'r Coleg yn cyfarfod yr Adran Addysg i drafod rhannu dolenni cyswllt i'r deunydd ymchwil a gynigir i weithwyr cymdeithasol. (Ymdrinnir ag ymweliadau ag asiantaethau eraill yn 49 uchod).<br><br>Mae'r rhaglen gynefino ar gyfer ynadon, sy'n para am gyfnod o naw mis, ac sy'n cael ei darparu gan y Coleg Barnwrol eisoes yn canolbwyntio cryn dipyn ar reoli achosion. Bydd y rhai hynny sydd eisoes yn rhoi cyngor mewn achosion teulu wedi cael yr un hyfforddiant rheoli achosion â'r farnwriaeth, ond yn cael ei darparu'n lleol gan gydweithwyr sydd wedi dilyn yr hyfforddiant barnwrol ac wedi cael eu hyfforddi fel hyfforddwyr gan y Coleg Barnwrol ar y deunyddiau a ddefnyddir gan y barnwyr, wedi'u haddasu i fod yn berthnasol i'r gwaith y mae ynadon yn ymwneud ag ef.<br><br>Mae hyfforddiant penodol yn ymwneud â'r diwygiadau wedi cael ei ddarparu i'r 770 o farnwyr â thocynnau cyfraith gyhoeddus. Mae'r Coleg Barnwrol wedi paratoi deunyddiau hyfforddi i gynghorwyr cyfreithiol ac ynadon, (addasu'r deunyddiau o'r digwyddiadau barnwrol er mwyn sicrhau cysondeb) ac wedi hyfforddi'r hyfforddwyr ynglŷn â'r deunyddiau. Mae'r hyfforddiant wedi'i ddarparu yng Nghymru ac yn Lloegr. |
| 51, 52 | Yn dilyn cynhadledd flynyddol y Llywydd dylid cael cyfarfodydd ar lefel cylchdeithiau rhwng y Barnwyr Llywyddol Teuluol a'r uwch farnwriaeth yn eu hardaloedd i drafod y dull o gyflawni busnes teuluol.<br><br>Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r barnwyr y maent yn gyfrifol am eu harwain. | Trefnir cynadleddau'r Llywydd fel bod cyfle i Farnwyr Cyswllt yr Adran Deulu drafod materion yn ymwneud â chylchdaith â phob Barnwr Teulu Dynodedig dros gyfnod estynedig wrth i faterion busnes teulu godi mewn trafodaeth.<br><br>Mae cynadleddau cylchdeithiau wedi'u cynllunio er mwyn ymdrin â materion busnes lleol yn ogystal â materion o ddiddordeb mwy academaidd.<br><br>Mae'r disgrifiad swydd ar gyfer Barnwyr Teulu Dynodedig yn nodi hyn. Cynhelir digwyddiadau hyfforddi hefyd i ymestyn hyn ymhellach. |
| 56 | Dylai cyrff proffesiynol cyfreithwyr ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gyfreithwyr, drwy gydweithio â grwpiau sy'n cynrychioli tystion arbenigol ynghylch sut i ddrafftio cyfarwyddiadau effeithiol ar gyfer tystiolaeth gan arbenigwyr. | Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol wedi arwain gwaith i wella dealltwriaeth cyfreithwyr o sut i weithio gyda thystion arbenigol. |

| | | |
|---|---|---|
| 57, 58, 59 | Dylai'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ystyried rhoi canllawiau i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch ynghylch addysgu sgiliau llys, a hynny'n cynnwys sut i ddarparu asesiadau o ansawdd uchel sy'n disgrifio hanes y plentyn ar ffurf naratif clir.<br><br>Dylai'r Coleg Gwaith Cymdeithasol a Chyngor Gofal Cymru ystyried gyda chyflogwyr a yw hyfforddiant gwaith cymdeithasol cychwynnol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yn cynnwys pwyslais digonol ar ddatblygiad plant, ar gyfer y gweithwyr cymdeithasol hynny sy'n dymuno mynd ymlaen i weithio gyda phlant.<br><br>Dylai'r Bwrdd Gwella i Blant ystyried pa hyfforddiant a phrofiad gwaith sy'n briodol ar gyfer Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant sydd heb ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol. | Cynhyrchodd y Coleg Gwaith Cymdeithasol ganllaw cwricwlwm ym mis Mai 2013 ar achosion gofal a sgiliau perthynol a gwybodaeth ar gyfer sefydliadau addysg uwch, awdurdodau lleol ac eraill sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol.<br><br>Mae ymchwil sy'n cael ei ariannu gan yr Adran Addysg ar ddatblygiad plant ac effaith oedi – Decision-Making Within a Child's Timeframe – wedi cael ei hyrwyddo gan y Coleg Gwaith Cymdeithasol drwy ei wefan a'i rwydweithiau Prif Weithwyr Cymdeithasol.<br><br>Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Syr Martin Narey ei adolygiad o addysg gwaith cymdeithasol gychwynnol. Nododd yr adolygiad ddatblygiad plant fel un o'r prif feysydd gwybodaeth y mae angen i weithwyr cymdeithasol ei arddangos pan fyddant yn cwblhau eu gradd. Nododd yr adolygiad hefyd fod gan y Coleg Gwaith Cymdeithasol rôl ganolog i'w chwarae yn y gwaith o ffurfio a diwygio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Mae rhaglen waith gan y Llywodraeth yn cael ei gweithredu nawr er mwyn ystyried argymhellion Narey a'r ffordd orau o symud ymlaen â hwy, ac mae'r Prif Weithiwr Cymdeithasol yn ystyried cwestiwn hanfodol gwybodaeth am waith cymdeithasol a sgiliau ar gyfer gweithwyr rheng flaen. Lansiwyd ymgynghoriad ar 31 Gorffennaf 2014 i ofyn am farn pobl ynglŷn â hyn. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 9 Hydref 2014. Mae i'w weld yn:<br><br>www.gov.uk/government/consultations/knowledge-and-skills-for-child-and-family-social-work<br><br>Mae'r Adran Addysg yn darparu £8m o gyllid i'r Coleg Staff Rhithwir er mwyn cynllunio a threfnu cyfleoedd datblygiad proffesiynol i brif swyddogion a deiliaid uwch swyddi arweiniol mewn gwasanaethau plant awdurdodau lleol ac i uwch arweinwyr eraill sy'n gweithio ym maes arwain, rheoli a darparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled Lloegr. Bydd cyfarwyddwyr gwasanaethau plant yn gallu defnyddio gwasanaethau mentora cyfoedion a chymorth i fynd i'r afael â heriau mawr drwy'r system gyfan er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau a chael mwy o effaith ar ganlyniadau. |

## Cyfraith gyhoeddus – Rôl y llysoedd

| | | |
|---|---|---|
| 60, 61, 62 | Rhaid i lysoedd barhau i chwarae rhan ganolog mewn cyfraith gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.<br><br>Dylai llysoedd ganolbwyntio o'r newydd ar yr ystyriaethau craidd, sef a fydd y plentyn yn byw gyda'i rieni, neu aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau, neu'n cael ei symud i fod o dan ofal yr awdurdod lleol.<br><br>Wrth benderfynu a yw gorchymyn gofal er y budd gorau i blentyn, ni fydd angen fel arfer i'r llys graffu ar holl fanylion cynllun gofal yr awdurdod lleol ar gyfer plentyn. Yn hytrach dylai'r llys ystyried elfennau canolog neu hanfodol cynllun y plentyn yn unig. Rydym yn cynnig mai'r rhain yw:<br>i) cynllun i ddychwelyd y plentyn i'w deulu;<br>ii) cynllun i leoli (neu ystyried lleoli) plentyn gyda theulu neu ffrindiau;<br>iii) trefniadau gofal eraill; a<br>iv) cyswllt â'r teulu biolegol i'r graddau o benderfynu a ddylai fod yn rheolaidd, yn gyfyngedig neu'n ddim. | Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r argymhellion hyn ac mae'r holl ddiwygiadau sy'n cael eu gwneud i achosion cyfraith gyhoeddus yn cefnogi hyn.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi deddfu, drwy Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, er mwyn i'r llysoedd ganolbwyntio o'r newydd ar yr elfennau o'r cynllun gofal sy'n hanfodol i'r penderfyniad ynglŷn â pharhauster (gweler yr ymateb i argymhelliad 62 isod).<br><br>Yn ychwanegol at hyn, mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2014 (PLO 2014) – a gyhoeddwyd ym mis Ebrill – wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu tystiolaeth fwy dadansoddol, ond llai ohoni, i gefnogi cais yr awdurdod lleol i'r llys. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod y llys yn canolbwyntio ar y materion a'r dadansoddiad sydd fwyaf perthnasol i'w penderfyniad.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi deddfu, drwy Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, i sicrhau bod y llysoedd yn canolbwyntio o'r newydd ar yr hyn sy'n hanfodol i'r penderfyniad gofal. Mae Adran 15 o'r Ddeddf honno'n nodi ei bod yn ofynnol i lys, wrth ystyried gorchymyn gofal, ystyried darpariaethau parhauster y cynllun gofal (dyma'r darpariaethau sy'n amlinellu'r cynllun hirdymor ar gyfer magu'r plentyn dan sylw), ond nid yw'n ofynnol iddo ystyried gweddill y cynllun. Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod y llys yn canolbwyntio ar y materion hynny sydd eu hangen er mwyn galluogi'r llys i benderfynu a fyddai gwneud gorchymyn gofal er pennaf les y plentyn. Nid yw'n atal y llys rhag craffu ar fanylion y cynllun gofal os yw'n teimlo y byddai gwneud hynny er pennaf les y plentyn. Fodd bynnag, disgwylir na fydd angen i'r llys wneud hyn yn y rhan fwyaf o achosion ac yn yr achosion hyn bydd angen i'r awdurdod lleol sicrhau bod y cynllun gofal yn diwallu anghenion y plentyn. Er mwyn helpu i wella cysondeb ac ansawdd tystiolaeth gwaith cymdeithasol, mae Cafcass a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Templed Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol, a bydd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn annog defnydd cenedlaethol ohono. |
| 63 | Dylai'r Llywodraeth ymgynghori ynghylch a ddylid diwygio adran 34 o Ddeddf Plant 1989 i hyrwyddo cyswllt rhesymol â siblingiaid, ac i ganiatáu i siblingiaid wneud cais am orchmynion cyswllt heb ganiatâd y llys. | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddwyd canllawiau statudol diwygiedig ym mis Chwefror 2014:<br><br>www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/279693/Looked_after_children_contact_with_siblings.pdf |

## Cyfraith gyhoeddus – Y berthynas rhwng llysoedd ac awdurdodau lleol

| | | |
|---|---|---|
| 64, 66 | Dylid cael deialog ar lefel genedlaethol a lleol rhwng y farnwriaeth ac awdurdodau lleol. Dylai Barnwyr Teulu Dynodedig lleol a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol gael perthynas hefyd a dylent gwrdd yn rheolaidd i drafod materion.<br><br>Dylai canllawiau diwygiedig Working Together a'r canllawiau perthnasol yng Nghymru dynnu sylw at bwysigrwydd graddfeydd amser plant a'r defnydd priodol o achosion llys wrth gynllunio ar gyfer plant ac mewn gweithgarwch amddiffyn plant strwythuredig. | Tynnwyd sylw at bwysigrwydd deialog reolaidd rhwng awdurdodau lleol a'u barnwriaeth leol droeon mewn negeseuon allan i'r system a thrwy hyfforddiant (yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol a'r farnwriaeth) ar gyfer gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig. Mae sefydlu'r Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol wedi darparu fforwm i gefnogi ac annog gwneud cysylltiadau.<br><br>Cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig Working Together ym mis Mawrth 2013. Mae'r canllawiau'n nodi: 'They [ymarferwyr] should act decisively to protect the child by initiating care proceedings where existing interventions are insufficient.' |

| Rheoli Achosion | | |
|---|---|---|
| 68, 69, 70, 71 | Dylai'r Llywodraeth ddeddfu i ddarparu pŵer i osod terfyn amser ar achosion gofal. Dylid pennu'r terfyn amser mewn deddfwriaeth eilaidd er mwyn darparu hyblygrwydd. Dylid cael darpariaethau trosiannol.<br><br>Dylid gosod y terfyn amser ar gyfer cwblhau achosion gofal a goruchwyliaeth ar chwe mis.<br><br>Cyfrifoldeb barnwr y treial fyddai bodloni'r terfyn amser. Byddid yn caniatáu estyniadau i'r terfyn amser o chwe mis fel eithriadau yn unig. Pe bai barnwr treial yn bwriadu ymestyn achos y tu hwnt i chwe mis, byddai angen iddo ofyn am gytundeb y Barnwr Teulu Dynodedig / Barnwr Llywyddol Teuluol fel y bo'n briodol.<br><br>Rhaid i farnwyr osod amserlenni pendant ar gyfer achosion. Wrth wneud penderfyniadau am amserlennu a rheoli achosion, rhaid canolbwyntio ar y plentyn a chyfeirio'n benodol at anghenion a graddfeydd amser y plentyn. Mae dadl gref dros gydnabod y cyfrifoldeb hwn yn benodol mewn deddfwriaeth sylfaenol. | (68 & 69) Mae'r Llywodraeth wedi deddfu, drwy adran 14 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014, er mwyn gosod terfyn amser statudol o 26 wythnos ar gyfer achosion llys dan Ran IV o Ddeddf Plant 1989. Diwygiwyd a diweddarwyd yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus – y Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n amlinellu'r broses rheoli achosion ar gyfer achosion gofal a goruchwyliaeth – yn Ebrill 2014 yn dilyn cynllun peilot a weithredwyd rhwng 1 Gorffennaf 2013 ac Ebrill 2014 i baratoi ar gyfer y diwygiadau. Er mwyn cefnogi'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig, mae asiantaethau a rhanddeiliaid wedi addasu eu systemau a'u prosesau. O ganlyniad, mae hyd cyfartalog achosion wedi dal i leihau.<br><br>Er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol a wnaethpwyd yn ddiweddar a chefnogi ymarfer mwy effeithlon gan awdurdodau lleol, mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddaru: Court orders and pre-proceedings.<br><br>www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/306282/Statutory_guidance_on_court_orders_and_pre-proceedings.pdf<br><br>Mae'r canllawiau bellach yn cynnwys pennod sy'n ymwneud yn benodol ag ymarfer cyn achos llys er mwyn helpu awdurdodau lleol â'u gwaith cynnar gyda theuluoedd a gwaith paratoi ar gyfer achosion.<br><br>Lansiwyd casgliad o ddeunyddiau dysgu ar-lein ar gyfer gweithwyr cymdeithasol yn dangos y newidiadau ar 23 Gorffennaf. Bydd y deunyddiau – a ariannwyd gan yr Adran Addysg ac a ddatblygwyd gan Research in Practice – yn helpu i wella cysondeb ac ansawdd y dystiolaeth y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ei chyflwyno i'r llys, yn fwyaf arbennig drwy ddosbarthu Templed Tystiolaeth Gwaith Cymdeithasol newydd. Datblygwyd y Templed ar y cyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant a Cafcass. Mae ei ansawdd wedi'i sicrhau gan y farnwriaeth ac mae wedi cael ei argymell ar gyfer defnydd cenedlaethol gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol. Mae'r deunyddiau i'w gweld yn:<br><br>http://coppguidance.rip.org.uk/social-work-evidence-template/#evidence_tmplt_learning<br><br>Mae adran 14 (3) o'r Ddeddf Plant a Theuluoedd yn nodi bod yn rhaid i'r llys roi sylw arbennig wrth lunio, diwygio neu ymestyn amserlen ar gyfer achos i'r effaith y byddai'r amserlen (neu ddiwygio'r amserlen) yn ei gael ar les y plentyn.<br><br>Mae Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2014 hefyd yn nodi'n glir bod rhaid sefydlu amserlen ar gyfer achos llys, sy'n gydnaws â'r amserlen ar gyfer y plentyn, yn gynnar yn ystod achos. |
| 72, 73, 76, 78 | Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus yn sylfaen gadarn ar gyfer dull o reoli achosion sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Nid yw'n dderbyniol bod anghysondeb wrth ei weithredu rhwng llysoedd ac rydym yn annog yr uwch farnwriaeth i fynnu bod pob llys yn ei ddilyn.<br><br>Bydd angen ailfodelu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus er mwyn cyflwyno terfynau amser mewn achosion. Dylai'r farnwriaeth ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid ar yr ailfodelu hwn. Dylid profi dulliau newydd fel rhan o'r broses hon.<br><br>Dylai'r farnwriaeth, dan arweiniad swyddfa'r Llywydd ac awdurdodau lleol drwy eu cyrff cynrychioliadol, roi ystyriaeth frys i'r safonau y dylid eu gosod ar gyfer dogfennau llys, a dylai gylchredeg enghreifftiau o'r arferion gorau. | (72 & 73) Mae pob barnwr, ynad a chynghorydd cyfreithiol arbenigol teulu wedi cael hyfforddiant ar yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, sy'n nodi'n glir bod yn rhaid dilyn y prosesau newydd. Cyn cyflwyno'r terfyn amser o 26 wythnos, aeth yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus drwy broses ddiwygio sylweddol, gan symleiddio'r hyn a oedd yn ofynnol ar gyfer proses y llys ac annog cysondeb. Roedd pob un o'r prif asiantaethau a rhanddeiliaid yn rhan o'r broses hon a gwnaethant addasu eu systemau a'u prosesau i gefnogi gofynion yr Amlinelliad yn ôl y galw.<br><br>Mae'r Farnwriaeth, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GLlTEM wedi gweithio gyda'i gilydd i baratoi templedi fformat safonol ar gyfer cyfarwyddiadau a gorchmynion cyffredin sy'n gydnaws â systemau TG GLlTEM. |

| | | |
|---|---|---|
| 74 | Dylid dileu'r gofyniad i adnewyddu Gorchmynion Gofal Dros Dro ar ôl wyth wythnos ac wedyn bob pedair wythnos. Dylid caniatáu disgresiwn i farnwyr roi gorchmynion dros dro am y cyfnod y maent yn ei ystyried orau hyd at gyfnod hwyaf o chwe mis. Dylid clymu pŵer y llys i adnewyddu wrth ei bŵer i ymestyn achos y tu hwnt i chwe mis. | Mae adran 14 (4) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn caniatáu disgresiwn i'r llys roi gorchmynion dros dro am y cyfnod mwyaf addas yn eu barn hwy, ond bydd unrhyw orchymyn dros dro yn dod i ben cyn gynted ag y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r achos gofal neu oruchwyliaeth. Bydd partïon yn cadw eu hawliau presennol i wneud cais i'r llys yn gofyn am ryddhau gorchymyn neu amrywio telerau gorchymyn.<br><br>Bydd y newid hwn yn helpu i leihau baich gweinyddol staff llys ac yn helpu i gynyddu effeithlonrwydd yn y system. |
| 75 | Dylid dileu'r gofyniad i baneli mabwysiadu awdurdodau lleol ystyried addasrwydd plentyn i'w fabwysiadu lle mae achos y plentyn hwnnw gerbron y llys. | Mae'r gofyniad hwn wedi cael ei ddileu gan Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Panel a Diwygiadau Canlyniadol) 2012.<br><br>Mae'r Memorandwm Esboniadol i'w weld yn:<br>www.legislation.gov.uk/uksi/2012/1410/pdfs/uksiem_20121410_en.pdf<br><br>Mae bwriad polisi'r Rheoliadau'n seiliedig ar ddau nod: yn gyntaf, lleihau oedi yn y broses fabwysiadu fel bod modd lleoli plant gyda'u darpar deuluoedd mabwysiadu yn gynharach nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw achos yn cael ei gyfeirio at banel mabwysiadu os oes angen cais am orchymyn lleoli dan adran 21 o'r Ddeddf. Yn ail, dileu dyblygu gan fod y paneli mabwysiadu a'r llysoedd yn gwneud asesiad llawn o'r dystiolaeth. Er hyn, bydd angen i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn asiantaethau mabwysiadu gyflawni eu rôl o hyd wrth ystyried a ddylai plant penodol gael eu lleoli ar gyfer mabwysiadu. |
| **Arferion Awdurdodau Lleol** | | |
| 77, 94, 97 | Mae gwaith cyn achos llys yn fuddiol ac rydym yn cymell defnyddio'r Llythyr Cyn Achos. Rydym yn argymell adolygu ei weithrediad pan fydd ymchwil lawn ar gael ynghylch ei effaith.<br><br>Dylid cael cydnabyddiaeth fwy eang i fanteision Cynadleddau Grŵp Teuluoedd a dylid ystyried eu defnyddio cyn achosion llys. Mae angen mwy o ymchwil i'r defnydd gorau ohonynt, eu manteision a'r costau.<br><br>Dylid datblygu cynigion i dreialu dulliau newydd o gynorthwyo rhieni yn ystod achosion llys ac wedyn. | Dangosodd ymchwil a gyhoeddwyd gan Judith Masson yn 2013 (Partnership by Law?) y gall y Llythyr Cyn Achos, o'i ddefnyddio'n briodol, fod yn fuddiol iawn, gan sicrhau weithiau nad yw achosion yn mynd i'r llys.<br>O ganlyniad i'r ymchwil hwn, fel rhan o ddiwygiadau'r Llywodraeth i ganllawiau statudol (Gorchmynion Llys a Chyn Achos) ymgynghorodd y Llywodraeth yn helaeth â gweithgor o ymarferwyr profiadol ynglŷn â'r broses ffurfiol cyn achos llys – gan gynnwys y Llythyr Cyn Achos – i weld a oedd angen newidiadau. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r canllawiau yn awr yn egluro'r broses hon er mwyn sicrhau bod arferion awdurdodau lleol yn gyson.<br><br>Yn unol â chyngor helaeth a'r broses ymgynghori, mae'r Llywodraeth wedi dweud y bydd awdurdodau lleol naill ai'n rhoi llythyr cyn achos i rieni, yn datgan bod achos llys yn debygol ac yn gwahodd trafodaeth, neu lythyr cychwyn achos os yw'r awdurdod yn credu bod angen achos llys ar unwaith. Mae templedi diwygiedig ar gyfer y naill a'r llall wedi cael eu cynnwys fel atodiadau i'r ddogfen canllawiau.<br><br>Dangosodd ymchwil Judith Masson hefyd rai o fanteision cadarnhaol Cynadleddau Grŵp Teuluoedd ac argymhellodd y dylai awdurdodau lleol ystyried eu potensial bob amser i'r graddau y mae hynny'n ymarferol ac yn gyson â lles y plentyn a dymuniadau'r rhieni.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid i Grŵp Hawliau'r Teulu er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Gynadleddau Grŵp Teuluoedd cyn achos llys a chyflwyno system achredu. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi gweithio gyda Grŵp Hawliau'r Teulu er mwyn sicrhau bod yr angen i gynnwys y teulu ehangach yn gynnar yn y broses cyn achos llys a thrwy'r broses llys yn cael ei nodi'n glir yn y canllawiau statudol ar Orchmynion Llys a Chyn Achos a'r atodiadau (siart llif Cyn Achos Llys a Llythyrau Cyn Achos – gweler isod). Edrychwyd ar Gynadleddau Grŵp Teuluoedd yng nghyd-destun ymyriadau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer teuluoedd ar gyrion gofal yn yr ymchwil a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg ar Allu Rhieni i Newid. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth ar gael ar hyn o bryd i brofi effeithiolrwydd hirdymor Cynadleddau Grŵp Teuluoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhaid i bob awdurdod lleol gael polisi Teulu a Ffrindiau a dylai gael ei gyhoeddi ar eu gwefannau. Mae nifer o Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol wedi datblygu protocolau cyn achos, ac mae ar rai ohonynt angen Cynhadledd Grŵp Teuluol fel rhan annatod o reoli achosion.<br><br>Mae'r Adran Addysg wedi cryfhau geiriad yr adran sy'n ymdrin â nodi materion a allai effeithio ar allu rhieni i gynnal achos cyfreithiol yng nghanllawiau diwygiedig Gorchmynion Llys a Chyn Achos. Mae rhaglen waith sylweddol, yn cynnwys 70 awdurdod lleol, wedi'i chychwyn er mwyn hyrwyddo'r defnydd o ymyriadau teuluol arbenigol mewn meysydd fel Therapi Amlsystemig a Therapi Teulu Gweithredol. Mae cyllid yn cael ei ddarparu i'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol sy'n cefnogi rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau drwy achosion llys.<br><br>Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyhoeddi ymchwil yn ymwneud â'r gallu i fagu plant yn ddiweddar. Mae'r ymchwil hwn, a gomisiynwyd gan yr Adran Addysg, ac a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Ymchwil Llesiant Plentyndod (CWRC), yn ystyried gwahanol fathau o ymyriadau rhianta, gan gynnwys y rhai hynny a ddarparwyd yn ystod achos llys neu ar ôl achos llys. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol i benderfynu pa gefnogaeth sy'n briodol i rieni ar gyrion neu yn ystod achos gofal.<br><br>www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/330332/RR369_Assessing_parental_capacity_to_change_Final.pdf |
| 78, 79, 80 | Dylai awdurdodau lleol adolygu gweithrediad eu gwasanaeth Swyddog Adolygu Annibynnol i sicrhau ei fod yn effeithiol. Yn benodol, dylent sicrhau eu bod yn cydymffurfio â chanllawiau ynghylch llwythi achosion.<br><br>Dylai'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant / Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Arweiniol dros Blant gael adroddiadau rheolaidd gan y Swyddog Adolygu Annibynnol ar y gwaith a gyflawnwyd a'i ganlyniadau. Dylai Byrddau Lleol Diogelu Plant ystyried adroddiadau o'r fath.<br><br>Mae angen cysylltiadau effeithiol rhwng y llysoedd a'r Swyddogion Adolygu Annibynnol ac mae angen i'r berthynas waith rhwng y gwarcheidwad a'r Swyddog Adolygu Annibynnol fod yn gryfach. | Mae canllawiau ar rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol ar gael yn barod. Mae Gweinidogion yr Adran Addysg wedi ysgrifennu at bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llwyth achosion. Mae'r Grŵp Rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol cenedlaethol yn dal i fonitro'r mater hwn.<br><br>Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant ac Aelodau Arweiniol yn cael adroddiadau gan y Swyddog Adolygu Annibynnol yn flynyddol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a materion. Er mwyn cryfhau'r cyfathrebu hwn a sicrhau bod arferion yn gyson, mae'r Grŵp Rheolwyr Swyddogion Adolygu Annibynnol wedi llunio templed ymarfer da i helpu Swyddogion Adolygu Annibynnol i lunio'r adroddiadau hyn. Mae'r templed wedi cael ei ddosbarthu gan y grŵp i'r rhwydwaith Swyddogion Adolygu Annibynnol i'w hyrwyddo mewn awdurdodau lleol. Mae'r templed yn nodi y dylid anfon copi o adroddiad sy'n cael ei anfon at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant/Aelod Arweiniol at Gadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant fel bod y Bwrdd yn gallu cadw golwg ar arferion Swyddogion Adolygu Annibynnol lleol a chraffu ar faterion fel y bo'n briodol.<br><br>Mae canllaw arferion da sydd wedi cael ei ddatblygu gan Cafcass, Grŵp Rheolwyr y Swyddogion Adolygu Annibynnol a Chymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Adolygu Annibynnol (NAIRO), mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg, yn nodi rolau perthynol swyddogion Cafcass a Swyddogion Adolygu Annibynnol wrth iddynt baratoi ar gyfer achosion gofal ac yn ystod achosion gofal. Mae Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant wedi cymeradwyo'r protocol fel ymarfer da ac wedi dweud y dylai pob awdurdod lleol ei ddefnyddio yn eu gwaith achosion gofal. |

| Tystion Arbenigol | | |
|---|---|---|
| 81, 82, 84 | Dylai deddfwriaeth sylfaenol ategu bod rhaid rhoi sylw wrth gomisiynu adroddiad gan arbenigwr i effaith yr oedi ar les plentyn. Dylai fynnu hefyd mai dim ond pan fo tystiolaeth arbenigol yn angenrheidiol i ddatrys yr achos y dylid ei chomisiynu. Byddai angen diwygio'r Rheolau Trefniadaeth Teulu i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Ni ddylai'r llys ofyn am ddeunydd gan dyst arbenigol oni bai fod y wybodaeth honno heb fod ar gael, ac na ellir trefnu iddi fod ar gael, oddi wrth bartïon sydd eisoes yn gysylltiedig â'r achos. Dylid defnyddio gweithwyr cymdeithasol annibynnol fel eithriad yn unig.<br><br>Dylai barnwyr lywio'r broses o gytuno ar dystion arbenigol a'u cyfarwyddo fel rhan sylfaenol o'u cyfrifoldeb dros reoli achosion. Dylai barnwyr nodi'r cwestiynau y dylai'r tyst arbenigol ganolbwyntio arnynt yn y gorchymyn sy'n rhoi caniatâd i gomisiynu'r tyst arbenigol. | Mae adran 13 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 yn nodi'n benodol bod yn rhaid i'r llys ystyried: unrhyw effaith ar les y plentyn; bod angen y dystiolaeth er mwyn helpu'r llys i benderfynu ynglŷn â'r achos yn deg; pa dystiolaeth arbenigol arall sydd ar gael (gan gynnwys cyn achos llys); effaith caniatáu tystiolaeth gan arbenigwr ar amserlen a hyd yr achos; a'r cwestiynau y byddai'r llys yn gofyn i'r arbenigwr eu hateb.<br><br>Rhoddir rhagor o sylw i ofynion deddfwriaeth sylfaenol mewn is-ddeddfwriaeth drwy Reolau a Chyfarwyddiadau Ymarfer. |
| 83 | Dylid comisiynu ymchwil i ystyried gwerth asesiadau preswyl o rieni. | Comisiynwyd ymchwil i asesiadau preswyl o allu rhianta gan y Ganolfan Ymchwil Llesiant Plentyndod. Cyhoeddwyd yr ymchwil ym mis Gorffennaf 2014 a gellir ei weld yn:<br><br>www.gov.uk/government/publications/residential-parenting-assessments |
| 85 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gymryd cyfrifoldeb am waith gyda'r Adran Iechyd ac eraill yn ôl yr angen i wella ansawdd a chyflenwad y gwasanaethau gan dystion arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys treialu syniadau newydd, rhannu'r arferion gorau ac adolygu ansawdd. | Mae safonau cytunedig ar gyfer tystion arbenigol wedi cael eu datblygu a chawsant eu cyhoeddi mewn dogfen ar y cyd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2013. Gwahoddwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu i ystyried a ddylai'r safonau gael eu cynnwys yn y rheolau trefniadaeth teulu a / neu gyfarwyddiadau ymarfer. Yn ychwanegol at hyn, bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ystyried a ddylai cydymffurfio â'r safonau fod yn rhan o gontractau cymorth cyfreithiol. |

| Cynrychiolaeth Plant | | |
|---|---|---|
| 91 | Dylid cadw'r model tandem gan flaenoriaethu a dyrannu adnoddau'n ofalu. | Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig wedi arwain at flaenlwytho achosion yn well, er mwyn sicrhau rhan gymesur a diogel i'r Gwarcheidwad. |

| Dewisiadau yn lle achosion llys confensiynol | | |
|---|---|---|
| 96 | Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn Llys Achosion Teuluol Llundain Fewnol yn dangos cryn addewid. Dylid ehangu'r defnydd ohono dan gyfyngiadau er mwyn datblygu'r sylfaen dystiolaeth. | Mae'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol wedi gwneud nifer o wahaniaethau cadarnhaol a chanfu gwerthusiad annibynnol o'r Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ei fod yn llwyddo i wella canlyniadau i blant drwy fynd i'r afael â'r elfen camddefnyddio sylweddau gan rieni yn gynnar mewn achos gofal. Roedd rhieni a oedd wedi bod drwy system y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn fwy tebygol o roi'r gorau i gamddefnyddio sylweddau na'r rhai mewn achosion gofal arferol, ac roedd hynny'n golygu bod llai o blant yn cael eu rhoi mewn gofal. Pan oedd rhieni'n methu â rheoli eu harfer o gamddefnyddio sylweddau, roedd y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn gwneud penderfyniadau cyflymach er mwyn dod o hyd i gartref parhaol arall i blant. Cyhoeddwyd canlyniadau gwerthusiad dilynol arall ym mis Mai 2014.<br><br>Mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol arall wedi cael ei sefydlu yn Milton Keynes mewn partneriaeth â Swydd Buckingham ym mis Gorffennaf 2014, ac mae tîm y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol hefyd wedi cynorthwyo Swydd Gaerloyw i sefydlu model mewnol sy'n adlewyrchu dull y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol.<br><br>Mae Llywydd yr Adran Deulu, Syr James Munby, wedi mynegi cefnogaeth gref i'r syniad o Lys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ac wedi gofyn i Farnwyr Teulu Dynodedig ystyried y posibilrwydd o sefydlu llys o'r fath yn eu hardaloedd hwy, mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol. |

| Cyfraith Breifat – Gwneud i gyfrifoldeb rhiant weithio | | |
|---|---|---|
| 98 | Dylai'r Llywodraeth ddod o hyd i ffyrdd o gryfhau'r pwysigrwydd o gael dealltwriaeth dda o gyfrifoldeb rhiant mewn gwybodaeth y mae'n ei rhoi i rieni. | Mae'r Llywodraeth yn darparu gwybodaeth i rieni am faterion sy'n ymwneud â gwahanu yn bennaf drwy wasanaeth ar-lein Gwneud Gwahanu yn Llai Cymhleth. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyfrifoldeb rhieni, yn ogystal â dolenni cyswllt sy'n arwain at daflenni ffeithiau a gwybodaeth a ddatblygwyd gan sefydliadau partner. |
| 99 | Ni ddylid cyflwyno deddfwriaeth sy'n creu neu'n arwain at y perygl o greu'r canfyddiad bod gan rieni hawl i gael amser sylweddol wedi'i rannu neu amser cyfartal ar gyfer y ddau riant. | Nod y diwygiad Cynnwys Rhieni a wnaethpwyd gan adran 11 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 i adran 1 o Ddeddf Plant 1989 yw cadarnhau pa mor bwysig yw hi bod plant yn cael perthynas barhaus â'r ddau riant ar ôl i'r teulu wahanu, os yw hynny'n ddiogel ac er pennaf les y plentyn. Mae'r diwygiad yn nodi'n glir, fodd bynnag, nad yw hyn yn golygu unrhyw raniad penodol o amser y plentyn. Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â rhan rhieni, rhaid i'r llys – fel sy'n digwydd ar hyn o bryd – sicrhau mai lles y plentyn yw'r ystyriaeth bwysicaf un. Bydd y mesur hwn yn cael ei roi ar waith yn hydref 2014. |
| 100 | Dylai'r angen barhau i neiniau a theidiau wneud cais am ganiatâd y llys cyn gwneud cais am gyswllt. | Mae cymhwysedd i wneud cais am y gorchymyn trefniadau plentyn yr un fath â'r cymhwysedd presennol ar gyfer gorchmynion cyswllt a phreswylio. Ni fydd unrhyw newid yng nghyswllt neiniau a theidiau, a fydd – fel sy'n digwydd ar hyn o bryd – yn gorfod cael caniatâd y llys er mwyn gwneud cais. |

| | | |
|---|---|---|
| 101, 102 | Dylid annog rhieni i ddatblygu Cytundeb Rhianta i nodi trefniadau ar gyfer gofalu am eu plant ar ôl gwahanu.<br><br>Dylai'r Llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gallai Cytundeb Rhianta wedi'i lofnodi fod â phwysau fel tystiolaeth mewn unrhyw anghydfod rhwng rhieni wedyn. | Mae cynllun rhianta newydd wedi cael ei ddatblygu i helpu rhieni i ddod i gytundeb ynglŷn â gofal eu plentyn ar ôl i'r teulu chwalu.<br><br>Drwy ddarparu ffocws clir drwy gydol y broses o ddatrys anghydfod, mae'n ceisio helpu rhieni i ddod i gytundeb ynglŷn â'r prif agweddau ar ofal eu plentyn, mewn ffordd ddiogel, ac yn eu helpu i wella'r ffordd y maent yn cyfathrebu gyda'u cyn bartner. Mae'r cynllun ar gael ar wefan Cafcass a chafodd ei lansio'n swyddogol ym mis Mawrth 2014, ar y cyd â OnePlusOne.<br><br>Mae'r Llywodraeth wedi ystyried rôl y cynllun rhianta mewn achos llys. Yr ystyriaeth bwysicaf un i'r llys yw lles y plentyn; o ganlyniad, ni fyddai'n briodol i'r cynllun rhianta fod â phwysau fel tystiolaeth ym mhenderfyniad terfynol y llys, gan na ellir cymryd yn ganiataol y bydd cynllun o'r fath yn adlewyrchu pennaf les y plentyn o reidrwydd. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Trefniadau Plant newydd yn nodi'n glir bod y cynllun rhianta'n offeryn defnyddiol i'r llys er mwyn deall pa faterion y mae'r rhieni wedi cytuno arnynt a pha rai y mae anghydfod yn eu cylch o hyd. |
| 103, 104 | Dylai'r Llywodraeth ddatblygu gorchymyn trefniadau plentyn, a fyddai'n nodi trefniadau ar gyfer magu plentyn pan fydd angen penderfyniad gan lys ynghylch anghydfodau sy'n ymwneud â gofal plant.<br><br>Dylai'r Llywodraeth ddiddymu'r ddarpariaeth ar gyfer gorchmynion preswylio a chyswllt yn Neddf Plant 1989. | Cyflwynodd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 orchymyn trefniadau plentyn newydd, i gymryd lle gorchmynion cyswllt a phreswylio. Mae gorchmynion cyswllt a phreswylio sy'n bodoli'n barod bellach yn cael eu hystyried yn orchmynion trefniadau plant. Mae rhieni'n gymwys i wneud cais am orchymyn trefniadau plentyn pa un a oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn dan sylw ai peidio. Bydd gan eraill sydd â chyfrifoldeb rhiant hefyd hawl i wneud cais am y gorchymyn. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen i aelodau o'r teulu ehangach nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn adran 10 o Ddeddf Plant 1989 angen caniatâd gan y llys i wneud cais am orchymyn trefniadau plentyn. |
| 105 | Dylid cadw gorchmynion camau gwaharddedig a gorchmynion mater penodol ar gyfer materion ar wahân lle nad yw gorchymyn trefniadau plentyn yn briodol. | Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw newid i'r gorchmynion hyn. |
| 106 | Dylai'r gorchymyn trefniadau plentyn newydd fod ar gael i dadau sydd heb gyfrifoldeb rhiant, yn ogystal â'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant eisoes, ac i aelodau o'r teulu ehangach â chaniatâd y llys. | Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen i aelodau o'r teulu nad oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, ac nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn adran 10 o Ddeddf Plant 1989 gael caniatâd gan y llys i wneud cais am orchymyn trefniadau plentyn. |
| 107, 108 | Lle byddai angen cyfrifoldeb rhiant ar y tad i gyflawni'r gofyniad am ofal sydd wedi'i nodi yn y gorchymyn, byddai'r llys hefyd yn gwneud gorchymyn cyfrifoldeb rhiant.<br><br>Lle bo'r gorchymyn yn nodi y dylai aelodau o'r teulu ehangach allu arfer cyfrifoldeb rhiant, byddai'r llys yn gwneud gorchymyn i'r perwyl y dylai'r person hwnnw fod â chyfrifoldeb rhiant yn ystod cyfnod y gorchymyn. | Mae'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 i Ddeddf Plant 1989 yn cyflawni hyn. Mewn achosion lle mae gorchymyn trefniadau plentyn yn enwi'r tad (neu ail riant benywaidd, os yw hi'n rhiant cyfreithlon i'r plentyn) fel person y dylai'r plentyn fyw gydag ef neu hi, rhaid iddo hefyd wneud gorchymyn yn rhoi cyfrifoldeb rhiant iddo ef (neu hi). Nid yw hyn yn gyfyngedig i gyfnod y gorchymyn. Mewn achosion lle mae'r tad (neu ail riant benywaidd, os yw hi'n rhiant cyfreithlon i'r plentyn) yn cael ei enwi yn y gorchymyn fel person y dylai'r plentyn dreulio amser neu gael cyswllt mewn ffordd arall ag ef neu hi, rhaid i'r llys benderfynu a fyddai'n briodol i'r tad (neu ail riant benywaidd) gael cyfrifoldeb rhiant.<br><br>Mae'r diwygiadau a wnaethpwyd gan Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 i Ddeddf Plant 1989 yn cyflawni hyn. Mewn achosion lle mae gorchymyn trefniadau plentyn yn enwi person nad yw'n rhiant nac yn warcheidwad i'r plentyn fel person y dylai'r plentyn fyw gydag ef neu hi, bydd ef neu hi hefyd yn cael cyfrifoldeb rhiant ar gyfer cyfnod y gorchymyn. Os yw'r gorchymyn yn enwi person o'r fath fel person y dylai'r plentyn dreulio amser neu gael cyswllt mewn ffordd arall ag ef neu hi, bydd gan y llys bŵer i roi cyfrifoldeb rhiant i'r person(au) dan sylw os yw hyn yn briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| 109 | Dylid parhau â'r cyfleuster i symud y plentyn o awdurdodaeth Cymru a Lloegr am hyd at 28 o ddiwrnodau heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys. | Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw newid yn y cyswllt hwn. |
| 110 | Dylid parhau â'r ddarpariaeth sy'n cyfyngu'r rheini sydd â chyfrifoldeb rhiant rhag newid cyfenw'r plentyn heb gael cytundeb pawb arall sydd â chyfrifoldeb rhiant neu orchymyn llys. | Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw newid yn y cyswllt hwn. |
| **Proses gydlynol o ddatrys anghydfodau** | | |
| 112 | Dylid ailenwi 'dulliau amgen o ddatrys anghydfodau' yn 'Wasanaethau Datrys Anghydfod', er mwyn lleihau un rhwystr rhag eu defnyddio. | O ran cyfathrebu â'r cyhoedd mae'r Llywodraeth wedi dechrau defnyddio ymadroddion disgrifiadol megis "cyfryngu a gwasanaethau eraill a all helpu i ddatrys anghydfod yn lle dod i'r llys". Mae'r Rheolau Trefniadaeth Teulu diwygiedig bellach yn defnyddio'r term "datrys anghydfod heb fynd i'r llys" yn hytrach na dulliau amgen o ddatrys anghydfodau. |
| 113 | Lle mae angen ymyrraeth, dylid disgwyl i rieni sy'n gwahanu ddod i sesiwn gyda chyfryngwr, sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu at safon broffesiynol uchel, a ddylai:<br>i) asesu i ganfod yr ymyriad mwyaf priodol, gan gynnwys cyfryngu a chyfraith gydweithredol, neu a yw'r perygl o drais domestig, anghydbwysedd rhwng y partïon neu ystyriaethau amddiffyn plant yn galw am atgyfeirio ar unwaith at y llys teulu; a<br>ii) darparu gwybodaeth am Wasanaethau Datrys anghydfodau lleol a sut y gallent helpu partïon i ddatrys anghydfodau. | Cafodd gofyniad deddfwriaethol i ddarpar ymgeiswyr mewn achosion cyfraith breifat berthnasol (plant a rhwymedi ariannol) fynd i gyfarfod MIAM ei gynnwys yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 a daeth i rym ar 22 Ebrill 2014.<br>Yn y MIAM, bydd cyfryngwr wedi'i hyfforddi'n asesu addasrwydd y cwpwl ar gyfer cyfryngu. Bydd y cyfryngwr hefyd yn darparu gwybodaeth am gyfryngu a dewisiadau eraill er mwyn datrys anghydfod a sut y gallai'r dulliau hyn helpu'r partïon i ddatrys eu hanghydfod. |
| 114 | Byddai angen i'r cyfryngwr sydd i wneud yr asesiad cychwynnol (Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu) fod yn ymarferydd allweddol nes gwneud cais i'r llys. | Roedd barn darparwyr gwasanaethau cyfryngu ynglŷn â'r cynnig hwn yn amrywio. Bu gweithgor yn ystyried y cynnig a daeth i'r casgliad bod rôl yr ymarferydd allweddol yn newid gan ddibynnu ble mae'r cleientiaid yn y broses, a dylai cyfeirio/cefnogaeth emosiynol fod yn cael eu hystyried fel arferion gorau yn barod. Bydd y Llywodraeth yn dal i gadw golwg ar yr argymhelliad hwn wrth ystyried newidiadau i'r system cyfraith breifat. |
| 115 | Byddai'r gyfundrefn yn caniatáu ceisiadau brys i'r llys a dylai'r eithriadau fod fel y rheini sydd yn y Protocol Cyn Cais. | Cafodd rheolau MIAM eu drafftio ag eithriadau a oedd at ei gilydd yn cadw'r rhai dan y protocol cyn cais, ag ychwanegiadau a rhai addasiadau canlyniadol angenrheidiol. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu gan ddibynnu sut mae'r MIAM statudol yn gweithredu nawr. |
| 118 | Dylai barnwyr gadw'r pŵer i orchymyn i bartïon gymryd rhan mewn sesiwn gwybodaeth cyfryngu a Rhaglenni Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu, ac maent yn cael gwneud gorchmynion am gostau lle y teimlir bod un parti wedi ymddwyn yn afresymol. | O ran cyfarwyddyd i fynd i gyfarfod MIAM, mae'n amlwg mewn achos gorchymyn trefniadau plentyn y gall y llys wneud Cyfarwyddyd Gweithgaredd ac y gall hwn gynnwys mynd i gyfarfod MIAM.<br>Mae gan y llys bŵer i wneud gorchmynion costau yn barod. |

| | | |
|---|---|---|
| 119 | Lle na fu modd dod i gytundeb, byddai un o'r partïon, neu'r ddau, ar ôl cael tystysgrif gan y cyfryngwr, yn gallu gwneud cais i'r llys. | Mae rheolau a gafodd eu gwneud dan y pŵer MIAM statudol a ddaeth yn weithredol ar 22 Ebrill 2014 yn galluogi person mewn achos teulu perthnasol i wneud cais am orchymyn llys ar ôl bod i gyfarfod MIAM yn gyntaf, ac adlewyrchir hyn yn y ffurflenni cais (fel ffurflen gais C100 ar gyfer gorchmynion trefniadau plentyn.<br><br>Mae'r ffurflen/ffurflenni cais (e.e. C100) wedi cael eu diwygio i gynnwys datganiad gan gyfryngwr awdurdodedig bod person sy'n dymuno gwneud cais wedi bod mewn cyfarfod MIAM. Neu, gall yr ymgeisydd hawlio ei fod wedi ei eithrio rhag mynd i gyfarfod MIAM ar y ffurflen gais i'r llys. |
| 122 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol sicrhau, mewn achosion sy'n cynnwys plant, fod gwiriadau diogelu wedi'u cwblhau ar y pwynt mynediad i'r system llysoedd. | Nid yw'r Llywodraeth yn gwneud unrhyw newidiadau i'r broses o gynnal gwiriadau diogelu ar gyfer achosion cyfraith teulu breifat. Bydd Cafcass yn dal i sicrhau bod llysoedd yn cael gwybodaeth ddiogelu ar gyfer y partïon sy'n rhan o'r achos. |
| 123 | Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth sefydlu system traciau yn ôl cymhlethdod yr achos. Dylai'r trac syml benderfynu materion cyfyng lle byddai rheolau ac egwyddorion rheoli achosion wedi'u teilwra. | Ni chafodd yr argymhelliad hwn ei weithredu. Ystyriwyd manteision system draciau ar gyfer achosion cyfraith breifat gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu a'r Barnwr â chyfrifoldeb am Foderneiddio Teulu. Gan fod yr holl achosion sy'n ymwneud â'r Ddeddf Plant yn cael eu porthgadw erbyn hyn ac yn cael eu dyrannu ar sail meini prawf penodol – gan gynnwys cymhlethdod – cytunwyd nad oedd angen system draciau ffurfiol. Mae'r Rhaglen Trefniadau Plentyn newydd (CAP 2014) yn nodi'r dull rheoli achosion y dylid ei ddilyn mewn cysylltiad â nodweddion arbennig unrhyw achos penodol. |
| 124 | Dylid cadw Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf. Gallai Cytundebau Rhianta fod o gymorth hefyd yn y cam hwn. Lle bo angen i'r llys ymwneud rhagor ar ôl hyn, dylai'r barnwr ddyrannu'r achos i drac syml neu drac cymhleth gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos. | Cafodd hyn ei ystyried gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu. Mae Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf wedi'i gadw. |
| 125 | Rhaid i'r barnwr a ddyrannwyd i wrando'r achos ar ôl Apwyntiad Datrys Anghydfod y Gwrandawiad Cyntaf barhau'n farnwr ar gyfer yr achos hwnnw. | Mae mater dilyniant barnwrol wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Trefniadau Plentyn. |
| 129 | Ni ddylid cael cysylltiad o unrhyw fath rhwng cyswllt a chynhaliaeth. | Roedd y Llywodraeth yn cytuno â'r argymhelliad hwn ac nid yw wedi gwneud unrhyw newid yn y cyswllt hwn. Rhaid i'r llys sicrhau mai lles y plentyn, ac nid amgylchiadau ariannol y naill riant neu'r llall, yw'r ystyriaeth bwysicaf un mewn unrhyw benderfyniadau o'r fath. |

**Ysgariad a threfniadau ariannol**

| | | |
|---|---|---|
| 131 | Dylid disgwyl i bobl sydd mewn anghydfod ynglŷn ag arian neu eiddo gael mynediad at y ganolfan wybodaeth a dylai fod yn ofynnol iddynt gael eu hasesu ar gyfer cyfryngu. | Er 22 Ebrill 2014, mae'n ofynnol mynd i gyfarfod MIAM mewn achosion cyfraith breifat sy'n ymwneud â phlant a rhwymedi ariannol cyn y gellir gwneud unrhyw gais i'r llys, gydag eithriadau.<br><br>Penderfynodd y Llywodraeth beidio â gweithredu'r argymhelliad y dylai fod yn ofynnol i bobl ddefnyddio canolfan ar-lein i gael eu hasesu ar gyfer cyfryngu. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi ategu gwybodaeth ar-lein am gyfryngu, gan weithio mewn partneriaeth agos â'r Cyngor Cyfryngu Teuluol, y mae ei wefan wedi cael ei wella a'i ail-lansio i'w gwneud hi'n haws i bobl ddod o hyd i wasanaethau cyfryngu a gwybodaeth am gyfryngu. Mae hyn ochr yn ochr â gwaith arall i hybu a chryfhau'r sector cyfryngu. |

| | | |
|---|---|---|
| 132 | Lle bo modd, dylid ystyried yr holl faterion sy'n destun anghydfod ar ôl gwahanu gyda'i gilydd, boed drwy gyfryngu ar yr holl faterion neu mewn gwrandawiadau llys cyfunol. Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth ystyried sut y gellid cyflawni hyn mewn llysoedd. Dylid gofalu na fydd hyn yn achosi oedi ychwanegol, yn enwedig mewn cysylltiad â phlant. | Mae'r trefniadau presennol ar gyfer cyfryngu teuluol – gan gynnwys cyfryngu sy'n cael ei ariannu ag arian cyhoeddus – eisoes yn darparu ar gyfer y posibilrwydd o gyfryngu ar yr holl faterion. Mae achosion llys yn seiliedig ar fathau penodol o geisiadau â ffioedd penodedig. Ni fu modd gwneud unrhyw waith cwmpasu ar ail ran yr argymhelliad hwn oherwydd cymhlethdodau sefydlu'r un Llys Teulu ar sail y fframwaith presennol math un achos llys. |

# Argymhellion heb eu cwblhau

| Rhif. | Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Llais y plentyn** | | |
| 2 | Dylai plant a phobl ifanc gael cymorth mor gynnar ag sy'n bosibl mewn achos er mwyn iddynt allu rhoi gwybod am eu barn, a dylai plant hŷn gael dewis o opsiynau, i egluro ym mha ffyrdd y gallant wneud hyn – os ydynt yn dymuno. | Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo y bydd plant a phobl ifanc 10 oed a hŷn sy'n gysylltiedig â gwrandawiad llys teulu yng Nghymru a Lloegr yn cael cyfle i siarad â barnwr i fynegi eu teimladau. Mae Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol wedi cynhyrchu offer i swyddogion Cafcass er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc ac mae'r rhain yn awr yn cael eu cyflwyno gydag adroddiadau Cafcass i'r barnwr. |
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol** | | |
| 10 | Dylid dileu'r ffioedd a godir ar awdurdodau lleol am geisiadau cyfraith gyhoeddus ac ar awdurdodau lleol a Cafcass am wiriadau'r heddlu mewn achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat. | Polisi'r Llywodraeth yw bod costau'r llysoedd sifil a theulu'n cael eu hariannu drwy ffioedd a godir ar y rhai sy'n eu defnyddio. Mae'n ofynnol i bawb sy'n dymuno dwyn achos yn y llys teulu, gan gynnwys cyrff cyhoeddus, dalu ffi am wneud hynny, oni bai eu bod yn gymwys i gael dileu'r ffi.<br><br>Mae Cafcass yn dal i wneud gwiriadau heddlu Lefel 1 o'u swyddfa yn Coventry a chodir ffi trafodiad o 69c ar Cafcass am bob gwiriad sy'n cael ei gwblhau. Codir tâl am wiriadau manwl ar hyn o bryd ac mae trafodaethau i ddatrys hyn yn cael eu cynnal. |
| 12 | Dylid datblygu system TG integredig i'w defnyddio yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ac asiantaethau cyfiawnder teuluol ehangach. Bydd hyn yn galw am fuddsoddi. | Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn sefydlu'r achos dros System Rheoli Achosion Teulu a fydd yn cael ei rhannu gan Cafcass a GLlTEM. Mae Dadansoddwyr Busnes wedi cynhyrchu Gofynion Busnes Lefel Uchel ac mae Bwrdd Blaenoriaethu TG GLlTEM wedi cytuno y dylai'r prosiect fynd ymlaen i'r cam nesaf: mae TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cael ei gomisiynu i fynd ymlaen i'r cam dichonoldeb. Bydd y gwaith hwn yn dod yn rhan o Raglen Ddiwygio GLlTEM.<br><br>Fel mesur interim, mae gwaith i rannu data rhwng yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Cafcass a Chymru'n mynd rhagddo. Nod y prosiect fydd casglu cipluniau o'r data sydd ar gael er mwyn darparu gwybodaeth i lunwyr polisïau ynglŷn â sut y mae cyplau a phlant yn mynd yn eu blaenau drwy'r system cyfiawnder teuluol, a sut y mae hyn yn effeithio ar eu canlyniadau. Mae gweithgor rhyngadrannol yn gwneud y gwaith hwn nawr, gyda'r nod o rannu data erbyn diwedd 2014. |
| **Judicial leadership and culture** | | |
| 27 | Dylai'r Swyddfa Farnwrol adolygu'r cyfyngiad ar ddiwrnodau eistedd ynadon. | Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried cynnwys cwestiynau ynglŷn ag a ddylai'r cyfyngiadau ar ddiwrnodau eistedd ynadon gael eu newid fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar gryfhau rôl gan y bydd unrhyw newidiadau yn effeithio ar agweddau eraill ar waith ynadon. |

| | | |
|---|---|---|
| **Y llysoedd** | | |
| 34, 35, 36, 37 | Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth sicrhau bod technoleg ffôn neu fideo'n cael ei defnyddio ar gyfer gwrandawiadau arferol lle bynnag y mae'n briodol.<br><br>Dylai GLlTEM a'r farnwriaeth ystyried defnyddio lleoliadau amgen ar gyfer gwrandawiadau nad oes angen eu cynnal mewn ystafell llys.<br><br>Dylai GLlTEM sicrhau bod adeiladau llys mor ystyriol ag sy'n bosibl o deuluoedd.<br><br>Dylai GLlTEM adolygu'r ystâd ar gyfer llysoedd teulu i leihau nifer yr adeiladau lle y gwrandewir achosion, i hybu effeithlonrwydd, dilyniant barnwrol ac arbenigo. Dylid gwneud eithriadau ar gyfer ardaloedd gwledig lle mae cludiant yn wael. | Mae GLlTEM yn gweithio ar hyn o bryd er mwyn mabwysiadu'r dull hwn lle bynnag y mae'n bosibl. Mae cynlluniau lleol yn adlewyrchu'r gofyniad hwn, i'r graddau y mae'r adnoddau presennol yn caniatáu. Bydd hyn yn parhau am beth amser ac mae'n rhan o'r agenda gwelliant parhaus a diwygiadau GLlTEM.<br><br>(35 & 36) Mae cynlluniau ardaloedd lleol yn adlewyrchu'r gofyniad hwn, i'r graddau y mae'r adnoddau presennol yn caniatáu.<br><br>Bydd hyn yn parhau am beth amser ac mae'n rhan o'r agenda gwelliant parhaus a diwygiadau GLlTEM. |
| **Y gweithlu** | | |
| 44, 53 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol sefydlu cynllun peilot lle byddai barnwyr ac ynadon yn dysgu am y canlyniadau i blant a theuluoedd y maent wedi dyfarnu yn eu cylch.<br><br>Dylid cefnogi barnwyr a rhoi iddynt y sgiliau y mae eu hangen i roi mwy o gymorth i'w gilydd. | Mae Llywydd yr Adran Deulu'n ymwybodol o'r galwadau sydd ar bob lefel o'r farnwriaeth gan gynnwys yr ynadaeth wrth weithredu'r newidiadau yn dilyn yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. Byddai'r cynllun peilot sy'n cael ei awgrymu'n faich ychwanegol nad yw'n briodol ei orfodi ar hyn o bryd. Bydd y Llywydd yn adolygu'r sefyllfa ar adeg briodol.<br><br>Mae materion adolygiad cymheiriaid gan farnwyr ac adborth i farnwyr yn faterion i'r Bwrdd Gweithredol Barnwrol. |
| **Cyfraith Gyhoeddus – Y berthynas rhwng llysoedd ac awdurdodau lleol** | | |
| 65 | Mae angen i awdurdodau lleol a'r farnwriaeth drafod amrywioldeb arferion awdurdodau lleol mewn cysylltiad â phenderfyniadau trothwy a phryd y byddant yn sbarduno ceisiadau gofal. Mae hyn yn galw hefyd am drafodaeth ar lefel genedlaethol a lleol. Dylai'r Llywodraeth hybu'r trafodaethau hyn drwy raglen barhaus o ddadansoddi ac ymchwil. | Sefydlwyd Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol i ddod â chynrychiolwyr prif asiantaethau'r system cyfiawnder teuluol at ei gilydd i rannu gwybodaeth, trafod arferion lleol a hybu gwelliant wrth fynd i'r afael ag oedi yn lleol.<br><br>Yn 2013, ac i gefnogi'r diwygiadau cyfraith gyhoeddus a gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus diwygiedig, darparodd y Llywodraeth gyllid i Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol gyflawni hyfforddiant rhyngddisgyblaethol, yn dilyn ymgynghoriad â'r Barnwr Teulu Dynodedig lleol. Daeth hyn â phob un o'r prif asiantaethau a rhanddeiliaid lleol at ei gilydd i sicrhau eu bod yn deall beth roedd ei angen ac i nodi sut y byddent yn rhoi sylw i unrhyw broblemau lleol.<br><br>Mae'r Llywodraeth yn cefnogi dadl leol drwy raglen ddadansoddi ac ymchwil barhaus. |

| | | |
|---|---|---|
| **Tystion arbenigol** | | |
| 86, 87 | Dylai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol goladu data'n rheolaidd ar arbenigwyr fesul achos ac yn ôl y math o arbenigwr, yr amser a gymerir, y gost ac unrhyw ffactor perthnasol arall. Dylai'r data hyn gael eu casglu yn ôl llys ac ardal.<br><br>Rydym yn argymell y dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gomisiynu astudiaethau o'r adroddiadau gan dystion arbenigol a gyflenwyd gan wahanol broffesiynau. | Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn rhoi System Rheoli Cleientiaid a Chostau newydd ar waith yn 2014/15. Mae'r system hon wedi'i chynllunio i gasglu ystod lawer ehangach o ddata am arbenigwyr sy'n cael eu hariannu drwy gymorth cyfreithiol. Dylai gwybodaeth rheoli fod ar gael ychydig fisoedd ar ôl gorffen cyflwyno'r system.<br><br>Mae'r llysoedd hefyd yn casglu gwybodaeth gyfyngedig am nifer yr arbenigwyr sy'n cael eu comisiynu drwy'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau.<br><br>Mae Gwasanaethau Dadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi comisiynu Prifysgol Coventry i ymchwilio i'r defnydd o arbenigwyr. |
| 88 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu safonau ansawdd cytunedig ar gyfer tystion arbenigol yn y llysoedd teulu. | Mae safonau cytunedig ar gyfer tystion arbenigol wedi cael eu datblygu a chawsant eu cyhoeddi mewn dogfen ar y cyd gan y Cyngor Cyfiawnder Teuluol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ym mis Tachwedd 2013. Gwahoddwyd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu i ystyried a ddylai'r safonau gael eu cynnwys yn y rheolau trefniadaeth teulu a / neu gyfarwyddiadau ymarfer. Yn ychwanegol at hyn bydd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ystyried a ddylai cydymffurfio â'r safonau fod yn rhan o gontractau cymorth cyfreithiol. |
| 89 | Dylid symud ymlaen â chynllun peilot pellach ar gyfer timau tystion arbenigol amlddisgyblaethol, gan ddatblygu'r hyn a ddysgwyd yn y cynllun peilot gwreiddiol. | Mae'r Llywodraeth wedi penderfynu peidio â gweithredu'r argymhelliad hwn ar hyn o bryd. |
| **Cynrychioli plant** | | |
| 92 | Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r fantais o ddefnyddio gwarcheidwaid cyn achosion. | Cyhoeddwyd y gwerthusiad o gynllun peilot cyn achosion Coventry/ Swydd Warwick ym mis Gorffennaf 2013. Mae ei ganfyddiadau'n gadarnhaol a disgwylir y bydd cynllun peilot arall yn Lerpwl, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn, hefyd yn dangos manteision gwaith cyn achosion. Mae'r canfyddiadau hyn yn helpu ardaloedd eraill i sicrhau cydweithio agosach a mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a chyn achosion Cafcass, ac mae rhai ardaloedd wedi datblygu eu protocolau lleol eu hunain ar gyfer cynnwys Gwarcheidwaid yn gynnar.<br><br>Mae Cafcass yn dal i ymwneud â rhai achosion a rhai materion strategol cyn achosion, cyn belled bod y sail resymegol wedi'i chytuno rhwng asiantaethau'n lleol a'i bod yn fforddiadwy. |
| 93 | Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i'r fantais o ddatblygu model tandem mewnol. Dylai'r effeithiau ar argaeledd cyfreithwyr lleol i gynrychioli rhieni fod yn ffactor penodol. | Ni symudwyd ymlaen â hwn ar yr adeg y disgwylid symud ymlaen ag ef oherwydd yr angen i leihau amseroedd aros ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus. Efallai y rhoddir ystyriaeth bellach yn ystod y misoedd sydd i ddod wrth i'r diwygiadau newydd gael eu traed danynt. |
| **Proses gydlynol o ddatrys anghydfodau** | | |
| 111 | Dylai'r Llywodraeth sefydlu canolfan wybodaeth ar-lein a llinell gymorth i roi gwybodaeth a chefnogaeth i gyplau i'w helpu i ddatrys materion ar ôl ysgaru neu wahanu y tu allan i'r llys. | Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd cynorthwyo rhieni a chyplau sy'n gwahanu i ganfod eu ffordd drwy'r gwasanaethau amrywiol sydd ar gael iddynt. Un brif nod yw hyrwyddo cydweithio rhwng cyplau a rhieni a lleihau effaith gwahanu ar blant.<br><br>Lansiwyd gwasanaeth ar-lein Gwneud Gwahanu yn Llai Cymhleth ym mis Tachwedd 2012. Mae wedi'i gynllunio er mwyn helpu rhieni i nodi eu hanghenion a'u cyfeirio at wybodaeth, offer a gwasanaethau arbenigol y gellir ymddiried ynddynt.<br><br>Mae Gwneud Gwahanu yn Llai Cymhleth yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn berthnasol ac yn gyfredol. |

| | | |
|---|---|---|
| 117 | Dylai presenoldeb mewn Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu ac mewn Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n dymuno gwneud cais i lys. Ni ellir mynnu hyn gan atebwyr, ond fe ddylid ei ddisgwyl. | Mae'r gofyniad i fynd i gyfarfod MIAM mewn achosion teulu perthnasol (oni bai fod eithriad wedi'i wneud) yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014 a daeth i rym ar 22 Ebrill 2014. Bydd y Llywodraeth yn gwneud rhagor o waith i weld sut y gellir defnyddio cyfarfodydd MIAM a'r Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu yn fwy effeithiol gyda'i gilydd, heb fynd i'r llys. |
| 116 | Pe bai rhieni heb allu cytuno o hyd, dylent gymryd rhan wedyn mewn Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu ac ar ôl hynny, os oes angen, defnyddio gwasanaeth cyfryngu neu wasanaeth datrys anghydfodau arall. | Cychwynnwyd cynllun peilot gan yr Adran Addysg, ac aeth Cafcass ati i ymestyn y Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu i lwybr heb fynd i'r llys ledled Lloegr o fis Medi 2013 ymlaen, ar sail treial. Bydd gwerthusiad o'r cynllun peilot yn cael ei gwblhau ym mis Medi eleni a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidogion yn yr hydref. Bydd y Gweinidogion wedyn yn ystyried argymhellion er mwyn penderfynu a ddylid cyflwyno'r Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu y tu allan i'r llys yn genedlaethol, sut y dylid gwneud hynny, a sut y gellid cysylltu'r rhaglen yn effeithiol â chyfryngu. |
| 120, 121 | Dylai fod yn ofyniad sylfaenol i gyfryngwyr fodloni'r gofynion presennol sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Dylid adolygu'r safonau hyn eu hunain yng nghyd-destun y cyfrifoldebau newydd a roddir i gyfryngwyr. Dylai cyfryngwyr nad ydynt yn bodloni'r safonau hynny ar hyn o bryd gael cyfnod penodol i'w cyrraedd.<br><br>Dylai'r Llywodraeth gadw golwg manwl ac adolygu cynnydd y Cyngor Cyfryngu Teuluol er mwyn asesu ei effeithiolrwydd wrth gynnal ac ategu safonau uchel. Os bydd angen, dylid sefydlu rheoleiddiwr annibynnol yn lle'r Cyngor Cyfryngu Teuluol. | Cynorthwyodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y Cyngor Cyfryngu Teuluol i gomisiynu gwaith ar y Fframwaith Safonau Proffesiynol sydd wedi creu un statws cymwysedig, 'trwydded i ymarfer' ar gyfer cyfryngwyr teuluol, pa un a ydynt yn cyflawni unrhyw rai o'r swyddogaethau y mae angen cymhwyster ar eu cyfer ar hyn o bryd ynteu ddim ond yn gweithio gyda chleientiaid sy'n cael eu hariannu'n breifat.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda'r Cyngor Cyfryngu Teuluol nawr er mwyn gweithredu'r Fframwaith Safonau Proffesiynol yn llwyddiannus.<br><br>Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn bwriadu adolygu contractau'r Asiantaethau Cymorth Cyfreithiol gyda gwasanaethau cyfryngu yn y dyfodol er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth ac adolygu gweithrediad argymhellion McEldowney er mwyn edrych ar ddewisiadau ar gyfer diwygio'r modd y mae'r sector cyfryngu'n cael ei reoli a'i reoleiddio. |
| 127 | Dylai'r llywodraeth a'r farnwriaeth ystyried sut y gellir amddiffyn plant a thystion sy'n agored i niwed pan fyddant yn rhoi tystiolaeth mewn achosion teuluol. | Sefydlodd Llywydd yr Adran Deulu weithgor ym mis Gorffennaf 2014 i ystyried camau gweithredu ar gyfer plant a thystion agored i niwed mewn achosion yn y llys teulu. Mae'r adroddiad interim wedi cael ei gyhoeddi erbyn hyn. |
| 128 | Lle mae gorchymyn wedi'i dorri o fewn y flwyddyn gyntaf, dylai'r achos fynd yn syth yn ôl i'r llys at yr un barnwr er mwyn datrys y mater yn gyflym. Dylai'r pwerau gorfodi presennol fod ar gael. Dylid gwrando'r achos o fewn nifer penodedig o ddiwrnodau, gan ddatrys yr anghydfod mewn un gwrandawiad. Os caiff gorchymyn ei dorri ar ôl 12 mis, dylid disgwyl i'r partïon fynd yn ôl at y Gwasanaethau Datrys anghydfodau cyn dychwelyd i'r llys i geisio camau gorfodi. | Mae Llywydd yr Adran Deulu wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer ar y Rhaglen Trefniadau Plentyn sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer rhestru achosion gorfodi gorchmynion trefniadaeth plentyn yn gyflymach, cyn pen 20 diwrnod gwaith. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Cafcass yn gweithio er mwyn datblygu fersiwn o'r Rhaglen Gwybodaeth i Rieni sydd wedi Gwahanu sy'n canolbwyntio ar gamau gorfodi. Bydd yn cael ei rhoi ar waith yn hydref 2014. |

| Ysgariad a threfniadau ariannol | | |
|---|---|---|
| 130 | Dylai'r broses ar gyfer cychwyn achos ysgaru ddechrau â'r ganolfan wybodaeth ar-lein a dylai gael ei drafod yn weinyddol gan y llys, oni bai fod anghytundeb ynglŷn â'r ysgariad. | Mae Adran Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried hyfywedd ceisiadau digidol am ysgariad. Fodd bynnag, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi darparu cyllid i helpu Canolfan Gynghori'r Llysoedd Barn Brenhinol i ddatblygu 'Courtnav', pecyn ar-lein sy'n helpu unigolion, yn enwedig y rhai hynny sy'n annhebygol o allu fforddio cymorth cyfreithiol, i lenwi eu deiseb ysgaru a ffurflenni sifil a theulu eraill.<br><br>Bydd GLlTEM yn defnyddio cynghorwyr cyfreithiol i ystyried ceisiadau am ysgariad nad ydynt yn cael eu hymladd o fis Hydref 2014, yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol sydd bellach yn caniatáu i gynghorwyr cyfreithiol ymdrin â'r gwaith hwn.<br><br>Cafodd darpariaethau i ddileu'r pŵer i'r llys ystyried trefniadau ar gyfer plant mewn achosion ysgariad eu cynnwys yn Neddf Plant a Theuluoedd 2014. |
| 133 | Dylai'r Llywodraeth sefydlu adolygiad ar wahân o orchmynion ariannol a hynny'n cynnwys archwiliad o'r gyfraith. | Mae'r Llywodraeth yn ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn cysylltiad ag eiddo priodasol, anghenion a chytundebau. Bydd Comisiwn y Gyfraith wedyn yn ystyried gorfodi gorchmynion ariannol mewn achosion teulu. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud adolygiad ehangach o orchmynion ariannol mewn achosion teulu ar hyn o bryd. |
| 134 | Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol fonitro effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol yn ofalus. Mae'r cyflenwad o gyfreithwyr teulu â chymwysterau priodol yn hanfodol i amddiffyn plant. | Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn dal i fonitro effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi effeithiolrwydd diwygiadau'r Adolygiad Cyfiawnder Teuluol. |

# Argymhellion hirdymor neu heb eu gweithredu

| Rhif | Argymhelliad yr Adolygiad Cyfiawnder Teuluol | Cynnydd |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol** | | |
| 9 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol fod yn gyfrifol am y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau gwaith cymdeithasol llysoedd yn Lloegr, cyfryngu, gwasanaethau datrys anghydfodau y tu allan i'r llysoedd ac, ymhen amser o bosibl, ar gyfer arbenigwyr a chyfreithwyr i blant. | Penderfynodd y Llywodraeth beidio â bwrw ymlaen â'r syniad o sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. |
| 13 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu a monitro safonau ansawdd cenedlaethol ar gyfer prosesau system gyfan, wedi'u seilio ar wybodaeth leol a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau. | Penderfynodd y Llywodraeth beidio â bwrw ymlaen â'r syniad o sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. |
| **Y gweithlu** | | |
| 39, 40, 41, 42, 43 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu strategaeth gweithlu.<br>Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu set gytunedig o sgiliau a gwybodaeth graidd ar gyfer cyfiawnder teuluol.<br>Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol gyflwyno cwrs sefydlu rhyngddisgyblaethol ar gyfer cyfiawnder teuluol.<br>Dylai cyrff proffesiynol adolygu cynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn addas mewn cysylltiad â chyfiawnder teuluol.<br>Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol ddatblygu blaenoriaethau blynyddol ar gyfer hyfforddiant rhyngddisgyblaethol i'r gweithlu er mwyn llywio cynnwys hyfforddiant rhyngddisgyblaethol yn lleol. | Penderfynodd y Llywodraeth beidio â bwrw ymlaen â'r syniad o sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. |
| **Tystion Arbenigol** | | |
| 90 | Dylai'r Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol adolygu'r mecanweithiau sydd ar gael i dalu tystion arbenigol, a dylai ailystyried maes o law a ellid talu arbenigwyr yn uniongyrchol. | Penderfynodd y Llywodraeth beidio â bwrw ymlaen â Gwasanaeth Cyfiawnder Teuluol. Nid yw gwaith i adolygu'r mecanweithiau sydd ar gael i dalu tystion arbenigol wedi cael ei wneud eto, gan fod ymateb y Llywodraeth yn nodi'n glir bod hwn yn amcan tymor hwy yn dilyn diwygiadau eraill i'r defnydd a wneir o arbenigwyr. |
| **Alternatives to conventional court proceedings** | | |
| 95 | Dylid sefydlu cynllun peilot ar y defnydd o ddulliau cyfryngu ffurfiol mewn achosion cyfraith gyhoeddus.. | Mae annog a hwyluso'r defnydd o gyfryngu mewn anghydfodau cyfraith breifat yn dal yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Ni chafodd yr argymhelliad hwn ar gyfer cyfryngu mewn achosion cyfraith gyhoeddus ei weithredu ar y pryd gan fod angen lleihau amseroedd aros ar gyfer achosion cyfraith gyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi yn ystod y misoedd nesaf wrth i'r diwygiadau newydd gael eu sefydlu |